
1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY | 1872 150 2022

# PROM



*Dathlu 150 mlynedd*

*DEWIS : Ymchwil trawsnewidiol* | *Y Bydoedd a Garem*

## PROM 31

Mae PROM yn cyflwyno'r newyddion a'r datblygiadau diweddaraf i chi o Aber, gan dynnu sylw at ymchwil a straeon allweddol o bob rhan o'r campws.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn manteisio i'r eithaf ar y rhwydwaith hwn o gyn-fyfyrwyr, gan gynnwys ein cylchlythyr misol poblogaidd – gweler yr adran 'Cadw mewn cysylltiad' isod.

Mae'r rhifyn diweddaraf hwn yn dathlu pen-blwydd 150 Prifysgol Aberystwyth, ac yn cynnwys erthyglau gan adrannau sydd yn dathlu eu cerrig milltir eu hunain.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer erthyglau yn y dyfodol, cofiwch gysylltu â ni.

**Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni**
alumni@aber.ac.uk

## Cadw mewn cysylltiad

@alumni_aber
Aberystwyth Alumni | Cyn-fyfyrwyr Aber
+44 (0) 1970 62 1568
alumni@aber.ac.uk
aber.ac.uk/cy/alumni

Cofiwch y gallwch ddiweddaru eich manylion cyswllt a'ch dewisiadau drwy fynd i alumni.aber.ac.uk/cy/login

## Polisi Preifatrwydd

Mae ein datganiad preifatrwydd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am y data a gedwir gennym amdanoch chi, sut y caiff ei gasglu a'i brosesu, yr hyn a wnawn gyda'r data hwnnw, a'ch hawliau o dan reoliadau GDPR y DU. Gallwch ddarllen y datganiad preifatrwydd yn llawn yma:

www.aber.ac.uk/cy/development/about/data-protection-statement/



# Croeso


Mae'n bleser eich croesawu i'r rhifyn pen-blwydd arbennig hwn o PROM.

Mae canrif a hanner ers i sylfaenwyr y Brifysgol groesawu'r myfyrwyr cyntaf i westy Fictoraidd anorffenedig, yr Hen Goleg fel y'i gelwid yn ddiweddarach, ar 16 Hydref 1872. Yn ystod y flwyddyn hon sy'n garreg filltir, rydyn ni'n dathlu treftadaeth ryfeddol y Brifysgol, ond rydyn ni hefyd yn edrych ymlaen tuag at ddyfodol disglair ac at y llu o ddatblygiadau cyffrous sydd ar y gorwel.

Heddiw, mae Prifysgol Aberystwyth yn croesawu myfyrwyr o bob cwr o'r byd sy'n golygu hyd at gant o genhedloedd yn cael eu cynrychioli yma ar unrhyw adeg. Mae'n cynnig un o'r profiadau gorau i fyfyrwyr yn y Deyrnas Unedig, mae ganddi enw rhagorol am ansawdd y dysgu ac mae'n gwneud gwaith ymchwil sy'n arwain y byd er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau byd-eang pwysig sy'n wynebu cymdeithas.

Mae nifer o ddigwyddiadau arbennig wedi'u cynnal i ddathlu ein pen-blwydd, ac rwyf wedi mwynhau'r cyfleoedd hyn i gwrdd â chyn-fyfyrwyr Aberystwyth. Cynhaliwyd ein dathliad traddodiadol, Diwrnod y Sylfaenwyr, yn Aberystwyth, lle lansiwyd y gyfrol dathlu hardd Ceiniogau'r Werin / The Pennies of the People sy'n adrodd hanesion y bobl a'r arteffactau o'r 150 mlynedd diwethaf. Daeth cyn-fyfyrwyr, cyfeillion, cefnogwyr, staff a myfyrwyr ynghyd yn y Senedd ym Mae Caerdydd i ddathlu yng

## Dafi Jones



**Swyddog Diwylliant Cymraeg a Llywydd UMCA**

Mae hi wedi bod yn bleser croesawu heidiau o bobl ifanc yn ôl i dref Aberystwyth ac i gampws byrlymus y Brifysgol fel Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA, ac i gael clywed lleisiau Cymraeg newydd yn canu o gwmpas neuadd hanesyddol Pantycelyn. Fy mwriad i ydy sicrhau bod pob myfyriwr Cymraeg yn Aber yn cael yr un profiad anhygoel a gefais i, yn enwedig y rhai sy'n dechrau'r profiad yn nerfus a'n ansicr fel oeddwn i. Mor belled, rwyf wedi bod yn ceisio sicrhau cydraddoldeb ag hygyrchedd i'r iaith, trwy hwyluso'r ddarpariaeth gorau posib o addysg Gymraeg, a chynrychioli barn myfyrwyr Cymraeg yng nghyfarfodydd Cyngor a Senedd y Brifysgol. Yn ogystal, rydyn ni fel UMCA wedi cychwyn digwyddiad wythnosol Sgwrs a Paned Dysgwyr Cymraeg, i gynnig awyrgylch hamddenol i alluogi pobl i ymarfer eu Cymraeg, ac i ddeall mwy am ein hiaith a'n diwylliant. Mae gennym brosiect ar y gweill fydd yn trefnu a chyhoeddi hen luniau ac atgofion o bob agwedd o fywyd UMCA ar hyd y blynyddoedd, i ddathlu ein pen-blwydd yn 50. Gobeithio y gallwn gynnwys cyd-fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr cymaint ag sy'n bosib yn y trefniadau hyn, felly cadwch lygad allan.

nghwmni'r gwesteion anrhydeddus, Prif Weinidog Cymru, y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS a'r Llywydd, y Gwir Anrh. Elin Jones AS; ac mewn digwyddiad yng Nghanolfan Cymry Llundain ar Ffordd Gray's Inn yn Llundain hefyd, lle'r ymunodd y siaradwr gwadd, y newyddiadurwr a'r darlledwr BBC, Huw Edwards, â ni.

Pa bryd bynnag y byddaf yn siarad â chyn-fyfyrwyr Aberystwyth - mewn digwyddiadau fel rhain, neu ar ymweliadau rhyngwladol fel fy nhaith ddiweddar i Bangkok, Singapore a Malaysia lle cyfarfûm â nifer o'n cymuned o gyn-fyfyrwyr ffyddlon a gweithgar - mae'n hyfryd bob amser clywed straeon am y cyfnodau a dreuliwyd yn Aberystwyth. Mae eich atgofion chi yn ein hatgoffa'n gyson bod hwn wedi bod yn lle arbennig i genedlaethau o fyfyrwyr. Mae hefyd yn dda cael rhannu newyddion y Brifysgol â chi, boed hynny yn bersonol, trwy ein e-gylchlythyrau misol i gyn-fyfyrwyr, neu trwy dudalennau'r cylchgrawn hwn.

Bu llawer o ddigwyddiadau nodedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf - agoriad swyddogol yr unig Ysgol Filfeddygaeth yng Nghymru gan Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog (bryd hynny) Charles; dechrau'r gwaith adeiladu ar adfywio'r Hen Goleg, symbol parhaus o'n gorffennol a'n dyfodol; ein carfan gyntaf o fyfyrwyr nyrsio oedolion ac iechyd meddwl; a'r seremoni raddio arbennig, pan anrhydeddwyd cyflawniadau ein graddedigion diweddaraf yn ogystal â chroesawu carfannau 2020 a 2021 yn ôl i gael dathliad hir-ddisgwyliedig o'u cyflawniadau a gafodd ei ohirio oherwydd y pandemig.

Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau darllen am rai o'r digwyddiadau hyn ar dudalennau'r rhifyn hwn o PROM, ac fel bob amser, rwy'n ddiolchgar dros ben i chi am gefnogi eich Prifysgol.

**Yr Athro Elizabeth Treasure**
**Is-Ganghellor**



## Ash Sturrock

**Llywydd Undeb Myfyrwyr**


Mae hi wedi bod yn hyfryd croesawu myfyrwyr yn ôl eleni a llwyddo i drechu'r tymor cyntaf gyda gweddill staff Undeb y Myfyrwyr. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weddill fy amser yn y swydd. Mae blaenoriaethau eleni yn ymwneud â bod yn llais gweithredol i fyfyrwyr a gwneud yn siŵr fy mod yn cyfathrebu â nhw trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn wedi arwain at gynnal ymgyrch sy'n rhoi arweiniad ac ymwybyddiaeth o iechyd rhywiol, yn ogystal ag wythnos Arweiniad ac Ymwybyddiaeth o Iechyd Rhywiol i addysgu myfyrwyr ar iechyd rhywiol, pwysigrwydd caniatâd a rhannu gwybodaeth sy'n rhoi hyder i'n haelodau roi neu wrthod caniatâd yn hyderus. Rwyf hefyd wedi dechrau'r ymgyrch Effaith Werdd, a drefnwyd gan SOS (Myfyrwyr yn Trefnu ar gyfer Cynaliadwyedd/Students Organising for Sustainability) sy'n cynnwys cydweithio â sefydliadau, cyfranogiad myfyrwyr a newid amgylcheddol o fewn yr Undeb a'r Brifysgol er mwyn ennill gwobr efydd, arian neu aur. Ein prif strategaeth ydy sut i gefnogi myfyrwyr drwy'r argyfwng costau byw a bod yn gynaliadwy mewn perthynas â'r amgylchedd ar yr un pryd. Rydym yn ddiolchgar dros ben am y gefnogaeth gan ein cyn-fyfyrwyr, yn enwedig ar gyfer y prosiectau a ariannwyd, a gwerthfawrogwn eu haelioni'n fawr. Rwy'n awyddus i'n myfyrwyr fwynhau bywyd y brifysgol i'r eithaf, a byddaf yn gweithio'n galed i sicrhau bod hyn yn digwydd a bod y cymorth o fudd gwirioneddol iddynt.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **2** | Newyddion y Brifysgol |
| **4** | Yr Hen Goleg |
| **6** | Gŵyl Ymchwil |
| **8** | Nyrsio ac Addysg Gofal a Iechyd yn Aber |
| **10** | Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr yn dathlu 130 |
| **12** | 150 mlynedd o Fathemateg |
| **14** | Cyfweliad - Natasha Devon |
| **18** | Eich rhoddion a'ch cefnogaeth |
| **20** | Prosiect Dewis |
| **24** | Creu Ceiniogau'r Werin |
| **26** | Dathliadau Pen-blwydd |
| **28** | Gwrthrychau'r Gyfrol 150 |









PROM 31 | Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth

**Cyhoeddwyd gan:** Prifysgol Aberystwyth

**Dyluniwyd gan:** Dyfan Williams

**Clawr:** Delwedd drôn 150 o staff, myfyrwyr a chynrychiolwyr cymunedol



Barn yr awduron unigol a fynegir yn ac nid ydynt yn cynrychioli'r Brifysgol oni nodir hynny. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd y deunydd a gyhoeddir, nid yw'r cyhoeddwyr yn derbyn dim cyfrifoldeb am honiadau a wneir gan gyfranwyr.

Gwobrau a Chymeradwyaeth

### Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021

Dangosodd yr arolwg diweddaraf o'r gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud yn sefydliadau addysg uwch y Deyrnas Unedig (DU) fod ansawdd ymchwil Prifysgol Aberystwyth wedi cynyddu'n sylweddol, a bod 98% o'n gwaith ymchwil o safon a gydnabyddir yn rhyngwladol neu'n uwch.

### Canllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times 2023

Prifysgol Aberystwyth yw'r Brifysgol orau yng Nghymru am ragoriaeth y dysgu a boddhad myfyrwyr, yn ôl *Canllaw Prifysgolion Da 2023 y Times a'r Sunday Times*. Mae'r canllaw yn defnyddio'r data diweddaraf i lunio tabl cynghrair o brifysgolion a rhoi braslun cynhwysfawr ynglŷn ag addysg uwch yn y DU, ac mae Aberystwyth yn nhraean uchaf y prifysgolion sy'n cael sylw yn y canllaw.

### Stonewall

Mae'r Brifysgol wedi ennill Gwobr Efydd yn rhan o ymgyrch Dewch â'ch Hun i Weithio Stonewall, sy'n amlygu pwysigrwydd amgylcheddau gwaith cynhwysol. Dringodd y Brifysgol hefyd 25 safle ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle yr elusen.

### Whatuni

Yn ôl y wefan adolygu i fyfyrwyr, Whatuni, llety myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yw'r gorau yn y DU. Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi dros £60 miliwn mewn llety newydd ac mewn gwaith uwchraddio arall dros y blynyddoedd diwethaf.

## Gwyddonwyr yn rhybuddio y gallai dros gan mil o dunelli o ficrobau ddianc o rewlifoedd sy'n dadmer

Wrth i rewlifoedd y byd ddadmer, fe allai mwy na chan mil o dunelli o ficrobau, yn cynnwys rhai allai fod yn niweidiol ac yn fuddiol, gael eu rhyddhau yn ôl rhybudd gan wyddonwyr o Brifysgol Aberystwyth.

Dadansoddwyd dŵr tawdd ar wyneb wyth rhewlif yn Ewrop a Gogledd America ynghyd â dau safle yng ngorllewin yr Ynys Las, ac mae'r academyddion yn amcangyfrif y caiff y microbau eu rhyddhau i ecosystemau'r nentydd islaw hyd yn oed os mai dim ond cynhesu cymedrol fydd yn digwydd.

Cyhoeddwyd canfyddiadau Dr Tristram Irvine-Fynn a Dr Arwyn Edwards yn y cyfnodolyn *Nature Communications Earth & Environment*.

**Stori lawn:** *https://bit.ly/3ie4MMG*



*Rhai o'r tîm ymchwil ar ochr orllewinol Llen Iâ yr Ynys Las.*

## Ymchwil Aberystwyth yn dangos y gall deilen o Affrica a ddefnyddir mewn diod draddodiadol drin clefyd y crymangelloedd

Mae cemegyn o ddeilen a ddefnyddir mewn meddyginiaeth draddodiadol yn Affrica yn driniaeth effeithiol ar gyfer afiechyd genetig sy'n effeithio ar filiynau o bobl o gwmpas y byd, yn ôl ymchwil Prifysgol Aberystwyth.

Mae'r ddiod 'tonig gwaed' sy'n gyffredin mewn rhannau o orllewin Affrica ac wedi'i gwneud â dail o'r planhigyn Llwyn y Nadolig (Alchornea cordifolia), yn cael ei defnyddio gan rai sy'n dioddef o anemia'r crymangelloedd; clefyd genetig sy'n achosi newidiadau i'r protein sy'n cario ocsigen mewn celloedd gwaed coch dynol.

Mae'r cyflwr yn achosi i gelloedd coch y gwaed newid siâp i ffurf 'cryman', sy'n eu hatal rhag gweithio'n iawn, gan achosi i lawer o'r celloedd coch farw.

Gall y clefyd arwain at newid yn llif y gwaed, poen difrifol, pwysedd gwaed uchel, niwed i feinwe a marwolaeth. Gall hefyd achosi genedigaeth farw.



*Y biolegydd moleciwlaidd, Dr Olayemi Adeniyi, sydd ei hun yn dioddef o anemia'r crymangelloedd, oedd un o'r ymchwilwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth a wnaeth y darganfyddiad.*

Mae canfyddiadau'r ymchwil, a gyhoeddwyd yn y *Journal for Clinical Research*, yn nodi cemegyn allweddol o ddail Llwyn y Nadolig a all wrthdroi crymu celloedd coch y gwaed.

Yn ogystal â dangos y gallai dail Llwyn y Nadolig fod yn ffordd dda o reoli'r clefyd, mae ymchwil Dr Olayemi Adeniyi a'r Athro Luis Mur yn cynnig y posibilrwydd o ddatblygu cyffuriau neu wella cryfder y driniaeth yn y dyfodol.

**Stori lawn:** *http://bitly.ws/AXqC*

## Academydd o Aberystwyth yn bwrw goleuni ar ofnau'r nos yn ei chyfrol gyntaf "ryfeddol"

Mae llyfr newydd rhyfeddol gan academydd o Aberystwyth yn edrych ar y credoau difyr, a rhyfedd weithiau, sydd gennym ynglŷn ag anhwylderau cysgu.

Mae *Night Terrors: Troubled Sleep and the Stories We Tell About It* yn waith gan Dr Alice Vernon, Darlithydd Ysgrifennu Creadigol yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, lle mae'n dysgu myfyrwyr am hanfodion adrodd straeon ac yn ymchwilio i'r ffordd y portreadir cwsg mewn gwyddoniaeth a diwylliant.

Cafodd y llyfr adolygiadau canmoliaethus'. Dywed y *Sunday Times* bod y gyfrol yn un "chwilfrydig, fywiog, ddiymhongar, hollol ddiffuant" ac yn "gyfrol gyntaf ryfeddol", a bu'n Llyfr yr Wythnos ar BBC Radio 4.

Mae'r naratif ffeithiol yn deillio o brofiadau nos hynod, a brawychus ar brydiau, a gafodd Dr Vernon ei hun, hanesion personol gan eraill, a'r modd y portreadir anhwylderau cysgu mewn llenyddiaeth a diwylliant.

Mae ei hymchwil yn cwmpasu anhwylderau cysgu megis ofnau'r nos, cerdded yn eich cwsg, parlys cwsg, breuddwydion eglur a rhithweledigaethau sy'n gysylltiedig â chwsg – y cwbl yn enghreifftiau o'r ffenomena parasomnia

Mae'r llyfr yn annog pob un ohonom i newid y ffordd rydyn ni'n siarad am gwsg, gan ddadlau bod llu o fanteision yn deillio o gyfnewid straeon ynglŷn â chwsg - yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac o ran ein lles.

**Stori lawn:** *http://bit.ly/3XaVCPA*




Dr Alice Vernon

## Pori a pharu: Bwyd a chwmni yn helpu anifeiliaid mewn caethiwed

O'r alpaca â'i dafod-rholio i'r iac anniddig a moch cythryblus, mae ymchwil newydd wedi datgelu pam fod rhai anifeiliaid fferm a sw yn ymdopi'n dda mewn caethiwed ac eraill yn dangos arwyddion o straen.

Mae ymchwilwyr o brifysgolion Aberystwyth a Portsmouth wedi cyhoeddi'r astudiaeth fawr gyntaf i ganfod pa rywogaethau o anifeiliaid carnol sy'n fwy addas i fod mewn amgylchedd caeth a pha rai sydd angen gwell hwsmonaeth os cedwir hwy mewn caethiwed.

Cedwir dros bum biliwn o'r anifeiliaid mawr carnog hyn; jiraffod, ceffylau, a moch, fel da byw ac mewn sŵau a pharciau saffari dros y byd. Maent yn rhai o'r anifeiliaid y mae'n fwyaf cyffredin i'w cadw ym mhob rhan o'r byd.



Ocapi

Cyhoeddwyd yr astudiaeth, a ysgrifennwyd gan Dr Sebastian McBride o'r Adran Gwyddorau Bywyd yn y cyfnodolyn *Proceedings of the Royal Society*, ac roedd yn edrych ar ymddygiad dros 15,000 o anifeiliaid unigol ar draws 38 o rywogaethau carnog. Canfuwyd bod y math o fwyd roedd yr anifeiliaid yn ei fwyta a'u strategaeth ar gyfer paru yn gysylltiedig â'r risg o symptomau straen.

Yn benodol, y rhywogaethau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddangos arferion cysylltiedig â straen yw'r rhai sy'n bwyta llystyfiant coediog sy'n tyfu'n uchel (porwyr), fel camelod, ocapïod a rhinoserosod, neu sy'n gymysgryw, fel byfflos, iacod, defaid a moch.

Daeth yr astudiaeth hefyd i'r casgliad bod anifeiliaid sydd mewn caethiwed, nad yw bwyd ar gael iddynt yn gyson, yn agored iawn i broblemau ymddygiad.

Anghenion ymddygiad rhywogaeth yw'r rhai mae'n eu perfformio er mwyn goroesi ac atgenhedlu yn ei gynefin. Os cyfyngir ar yr ymddygiadau hyn gan gaethiwed, gall arwain at ddirywiad yn lles yr anifail ac at ymddygiad anarferol, ailadroddus, a elwir yn ymddygiadau 'stereoteip', a welir yn aml mewn anifeiliaid fferm a sw. Mae'r astudiaeth hon yn dangos pa anghenion ymddygiadol penodol y dylid eu blaenoriaethu er mwyn osgoi ymddygiad stereoteip a sicrhau lles anifeiliaid carnog.

**Stori lawn:** *http://bitly.ws/AXqW*

*Credyd: Tina Robson o pixabay*



*Ystafell wely cornel yn Y Cambria*

BYWYD NEWYDD I'R HEN GOLEG

# Y Diweddaraf ar yr Hen Goleg

Ers imi rannu'r newyddion diweddaraf â chi yng nghylchgrawn *PROM*, rydym wedi gwneud cynnydd da ar ein cynlluniau i ddod â bywyd newydd i'r Hen Goleg â llawer wedi ei gyflawni tu ôl i'r llenni ac ar y safle.



Jim O' Rourke
Rheolwr Prosiect

Mae parchu treftadaeth yr adeilad rhestredig gradd 1 ysblennydd hwn wedi gofyn am waith pensaernïol hynod fanwl er mwyn sicrhau'r caniatâd adeilad rhestredig a bodloni'r amodau cynllunio perthnasol, ac rwy'n falch iawn o allu dweud wrthych fod popeth bellach yn ei le ar gyfer rhan nesaf y prosiect uchelgeisiol hwn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf dymchwelwyd hen swyddfeydd yr Adran Ystadau ar Stryd y Brenin er mwyn creu lle i'r atriwm newydd. Mae newidiadau a wnaed yn y 1960au hefyd wedi'u tynnu o'r adeilad gan ddatgelu ystafelloedd gwych a nodweddion nad ydynt wedi gweld golau dydd ers blynyddoedd lawer, megis Siambr y Cyngor a fydd yn cael ei thrawsnewid i fod yn Awditoriwm ar gyfer y Talwrn Trafod.

Prynwyd y Cambria, sy'n adnabyddus i lawer fel y Coleg Diwinyddol. Mae hwn yn ychwanegiad sylweddol at y prosiect sydd wedi ei ariannu'n llawn gan grant Cronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU. Bydd y gofod hwn yn y Cambria yn cael ei gynnwys yn y gwesty pedair seren a fydd yn rhan o'r datblygiad, gan gryfhau'r cynllun busnes ac ymestyn y prosiect cyfan i gwmpasu'r holl dir a'r adeiladau a saif o fewn terfynau Heol y Wig, Stryd y Brenin a'r Prom.

Afraid dweud y daw heriau annisgwyl iawn i'n rhan wrth ailddatblygu hen adeilad Fictoraidd. Yn ogystal, mae Covid a'r hinsawdd economaidd sydd ohoni wedi effeithio ar y sector adeiladu, gan ychwanegu heriau sylweddol at brosiect a oedd eisoes yn fawr ac uchelgeisiol iawn. Mae ein prif gyllidwyr yn cydnabod



*Gwaith adfer ar y gweill yn y Ganolfan Ddeialog*




*Canolfan Ddeialog ar ôl ei chwblhau*

hyn. Rydym hefyd yn hynod ddiolchgar i chi, ein cyn-fyfyrwyr. Mae eich haelioni a'ch cefnogaeth i apêl yr Hen Goleg wedi ennyn hyder ein cyllidwyr allweddol yn ein gweledigaeth i adfer cartref ysbrydol addysg brifysgol yng Nghymru. Bydd "ceiniogau'r bobl" hefyd yn chwarae rhan yn ein hanes cyfoethog unwaith yn rhagor.

Mae bellach yn ddeng mlynedd a mwy ers i'r adrannau academaidd diwethaf a swyddogaethau gweinyddol y Brifysgol adael yr Hen Goleg, ac mae'n bum mlynedd ers llunio'r cynlluniau manwl ar gyfer y gwaith adnewyddu ac ailddatblygu ac rydym yn falch o'r hyn a gyflawnwyd hyn yma.

Parhewch i gefnogi ein hapêl wrth i ni symud y prosiect yn ei flaen ac wrth inni baratoi i ddatgelu'r cyfleusterau newydd a'r cyfleoedd cyffrous yn yr Hen Goleg ar ei newydd wedd. Yr hyn sy'n ein sbarduno nawr yw ein hysfa i gael y lle arbennig iawn hwn yn barod ichi ymweld ag ef, ac i aros yma, yn y dyfodol. Bydd hwn yn atyniad newydd gwych ac yn rhywle lle gallwn roi sylw i gyflawniadau'r Brifysgol a photensial y sefydliad hwn i'r dyfodol.

www.aber.ac.uk/cy/oldcollege



# Edrych yn ôl ar Ŵyl Ymchwil 2022



Yr Athro Rhys Jones,
Cadeirydd Gŵyl Ymchwil
Prifysgol Aberystwyth 2022

Ym mis Tachwedd 2022, dechreuodd ein Gŵyl Ymchwil flynyddol, "Y Bydoedd a Garem", a oedd yn tynnu sylw at yr ymchwil flaenllaw sy'n digwydd ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac eleni fe'i cynhwyswyd yn rhan o ddathliadau 150 mlwyddiant y Brifysgol.

Agorodd yr Ŵyl gyda chynhadledd ieuenctid dan arweiniad Pennaeth BBC Radio 1, Aled Haydn Jones, lle bu 50 o ddisgyblion o ysgolion lleol yn trafod y dyfodol yr hoffent ei greu i'r byd, i Gymru, i Geredigion, ac iddynt eu hunain fel unigolion.

Mewn trafodaeth agored rhwng cyn Archesgob Caergaint, yr Athro Rowan Williams a'r bardd a'r academydd, sydd wedi ennill gwobrau am ei gwaith, yr Athro Mererid Hopwood, edrychwyd ar swyddogaeth sgwrsio i greu dyfodol gwell. Y digwyddiad hwn hefyd a lansiodd Canolfan Ddeialog newydd y Brifysgol.

Wrth siarad cyn y digwyddiad lansio, dywedodd yr Athro Colin McInnes, Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi ym Mhrifysgol Aberystwyth: "Mae cyswllt agos rhwng cyfnewid gwybodaeth ac ymchwil, a'r Ganolfan Ddeialog fydd ein cyfrwng i gyfnewid gwybodaeth; cysylltu gwahanol gymunedau ag ymchwil o ansawdd uchel; cychwyn sgyrsiau i hybu a rhannu dealltwriaeth newydd; cynyddu effaith ein hymchwil, a rhoi mwy o gyfle i arloesi." Ceir rhagor o wybodaeth am y datblygiadau yn y Ganolfan Ddeialog yn www.aber.ac.uk/deialog

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yn y Gymraeg, ac yn eu plith oedd dwy sesiwn i ddysgwyr a gyflwynwyd gan yr Athro Mererid Hopwood, Eurig Salisbury a Dr Robin Chapman. Yn ystod wythnos yr Ŵyl, dathlodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ben-blwydd yn 10 , a chafwyd sgyrsiau gan ymchwilwyr sydd wedi derbyn ysgoloriaethau gan y Coleg.

Cynhaliodd Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru (CWPS) gynhadledd *Ail-ddychmygu Cymreictod*, yn edrych ar ymchwil newydd sy'n dod





i'r amlwg gan ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa. Mae prosiectau'r ymchwilwyr hyn yn cyfrannu at ddatblygu delweddau newydd ac esblygol o ystyr 'Cymreictod'. Roedd panel y gynhadledd yn cynnwys ymchwilwyr o Brifysgol Aberystwyth, Prifysgol San Steffan, a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd dan gadeiryddiaeth yr Athro Matthew Jarvis. Yn rhan o'r Ŵyl, cynhaliwyd y Caffi Ymchwil cyntaf, lle cafodd ymchwilwyr y brifysgol gyfle i drafod arferion gorau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a chyflwynwyd Gwobrau Effaith.

Traddododd arbenigwr byd-enwog ar hanes caethwasiaeth, sef yr Athro Olivette Otele, ddarlith gyhoeddus a gofyn a all cyfiawnder adferol ein harwain at fyd a garem. Cyflwynodd Jacob Ellis, cyn-fyfyriwr a Phrif Ysgogwr Newid o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, sgwrs ar yr ymchwil a'r blaenoriaethau presennol yn gysylltiedig â llesiant Cymru. Traddodwyd darlith ar oresgyn pryder ynghylch yr hinsawdd gan Jessica Kleczka, un o raddedigion Prifysgol Aberystwyth, sy'n seicolegydd, ymgyrchydd ac awdur ym maes yr hinsawdd. Cyflwynwyd GALWAD gan Gyfarwyddwr Gweithredol *Collective Cymru*, Jacob Gough, prosiect celf cymhleth ar newid hinsawdd

sy'n canolbwyntio ar genedlaethau'r dyfodol a chynaliadwyedd, cynhwysiant radical ac arloesedd mewn adrodd straeon.

Cyflwynodd ymchwilwyr o Brifysgol Aberystwyth, sef yr Athro Huw Morgan, yr Athro Alison Kingston-Smith, Dr Alice Vernon, a Panna Karlinger eu sgyrsiau TEDx yn rhan o TEDxAberystwyth 2022, a oedd yn bartner i'r Ŵyl Ymchwil eleni. Recordiwyd y sgyrsiau a byddant ar gael i'w gwylio ar www.tedxaberystwyth.com yn nes ymlaen yn 2023.

Trefnwyd sesiwn ar y cyd rhwng ymchwilwyr Prifysgol Aberystwyth ac ymchwilwyr Prifysgol Pondicherry yn India, gan Rwydwaith Gwyddoniaeth ac Arloesi y Deyrnas Unedig ac Uchel Gomisiwn Prydain yn India, yn rhan o fenter Partneriaeth Sbwriel Môr, Twin Cities, rhwng y Deyrnas Unedig ac India. Cafwyd trafodaethau ar y cyfleoedd a'r heriau cysylltiedig â hyrwyddo dinasoedd cynaliadwy yng Nghymru ac India yn y dyfodol.

Eto eleni, ysgrifennwyd cyfres o gerddi gan dri bardd o'r Brifysgol, Eurig Salisbury a'r Athro Mererid Hopwood o Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, a'r Athro Matthew Jarvis o'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol. Roedd y gyfres yn ymateb i lawysgrifau o Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn ymdrin â thema'r Ŵyl eleni. Gan weithio trwy Rwydwaith y Llawysgrif a'r Llyfr, partneriaeth â'r Llyfrgell Genedlaethol a Chyngor Sir Ceredigion, nod y prosiect hwn oedd dod â gweithiau o'r gorffennol i sylw'r cyhoedd. Y bwriad oedd cynorthwyo i ysbrydoli syniadau newydd am y presennol a'r dyfodol.

Lansiwyd y Ganolfan Trafnidiaeth a Symudedd (CeTraM) yn ystod yr ŵyl, gan ddod ag ymchwilwyr o bob rhan o'r Brifysgol ynghyd i drafod atebion i faterion llosg ynglŷn â thrafnidiaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Nod y ganolfan, a lansiwyd gan Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd, yw llywio polisïau ac arferion ynglŷn â'r ffordd y mae pobl a nwyddau'n symud o le i le, ac ymchwilio i systemau sy'n fwy cynaliadwy, teg a hygyrch.

Dywedodd yr Athro Charles Musselwhite, arweinydd CeTraM o Adran Seicoleg y Brifysgol: "Mae trafnidiaeth a symudedd yn ganolog i ddadleuon cymdeithasol cyfoes ar gynaliadwyedd, newid hinsawdd, gweithgaredd corfforol, ac anghydraddoldebau iechyd. Ar adeg o chwyldro technolegol mawr, pan fo'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn buddsoddi symiau sylweddol mewn trafnidiaeth gynaliadwy, nod y ganolfan yw ymchwilio i rai o'r cwestiynau allweddol sy'n wynebu llunwyr polisïau trafnidiaeth, gwyddonwyr cymdeithasol a gwyddonwyr ymddygiad heddiw ac yn y dyfodol."

---

Os oes gennych ddiddordeb yn yr Ŵyl, syniadau ar ei chyfer, neu os hoffech gymryd rhan yng Ngwyliau Ymchwil y dyfodol, cysylltwch â gwylymchwil@aber.ac.uk. Ceir rhagor o wybodaeth am Wyliau Ymchwil y gorffennol a'r dyfodol yn www.aber.ac.uk/gwylymchwil.



# Croesawu'r garfan gyntaf o fyfyrwyr nyrsio i Aberystwyth

**Amanda Jones yw Pennaeth Addysg Gofal Iechyd ac mae'n sôn am y datblygiadau cyffrous yn y ganolfan addysg gofal iechyd newydd. Mae Amanda wedi bod yn nyrs gofrestredig ers bron i 30 mlynedd ac mae ganddi brofiad o raglenni nyrsio addysg uwch, yn ogystal â chymeradwyo rhaglenni'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.**



Ym mis Medi 2022 croesawodd y Brifysgol y garfan gyntaf o fyfyrwyr i'w Chanolfan Addysg Gofal Iechyd newydd i gychwyn ar eu cyrsiau nyrsio oedolion ac iechyd meddwl.

Mae'r bennod newydd hon mewn darpariaeth addysg yn cynrychioli cam hanesyddol a chyffrous i'r Brifysgol, ac o bwysigrwydd allweddol i ganolbarth Cymru hefyd gan ei fod yn cefnogi datblygiad gweithlu gofal iechyd cynaliadwy yn yr ardal.



*Amanda Jones*

Yn dilyn y straen enfawr ar iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig, yn ogystal â phroblemau recriwtio difrifol yn y tymor hwy, bydd y datblygiad hanfodol hwn yn sicrhau hygyrchedd addysg gofal iechyd, sydd wedi bod yn hanesyddol anodd cyrraedd ato o ardaloedd gwledig ac ardal canolbarth Cymru yn ei chyfanrwydd.

Gyda hyn yn gefndir, a chyda'i hymrwymiad i gefnogi recriwtio a gwydnwch y rhanbarth, penderfynodd y Brifysgol geisio dod yn ddarparwr addysg nyrsio a chyrsiau lefel gradd, gan gynnig BSc Nyrsio (Oedolion) a BSc Nyrsio (Iechyd Meddwl) i ddechrau.

Ar ôl treulio dros ddwy flynedd yn cynllunio'r rhaglen, dyfarnwyd statws sefydliad addysg cymeradwy i Ganolfan Addysg Gofal Iechyd y Brifysgol gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ym mis Mehefin 2021. Dyfarnodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru gontract a ariennir gan Lywodraeth Cymru i'r Brifysgol er mwyn addysgu a sicrhau lleoedd i bum deg tri o fyfyrwyr ym mlwyddyn academaidd 2022-23.

Bydd myfyrwyr yn dilyn hanner y rhaglen trwy fodiwlau damcaniaethol a'r hanner arall mewn lleoliadau ymarfer clinigol. Mae cytundebau lleoliad gwaith wedi eu sefydlu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chartrefi gofal, yn ogystal â lleoliadau trydydd sector a'r sector gwirfoddol.

Mae'r Brifysgol yn ymfalchïo yn ei hymrwymiad i'r Gymraeg ac yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd yr iaith i lawer o ddefnyddwyr gwasanaethau a'r myfyrwyr sy'n gofalu amdanynt. Felly bydd 50% o'r rhaglen, ar gyfer y ddau faes ymarfer, yn cael ei chynnig trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn unol ag arfer safonol y Brifysgol, bydd myfyrwyr nyrsio sy'n siarad Cymraeg yn cael Tiwtoriaid Personol sy'n siarad Cymraeg a bydd ganddynt hawl i gyflwyno/sefyll asesiad pob modiwl yn Gymraeg. Mae

modd i fyfyrwyr nyrsio sy'n astudio drwy'r Gymraeg gael cymorth ariannol ychwanegol trwy Ysgoloriaeth Astudio Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol a/neu ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r tîm hefyd wedi cynnwys sesiynau sgwrsio Cymraeg o'r enw 'Cornel Coffi a Chlonc' i gefnogi'r rhai sy'n ddi-Gymraeg i ddatblygu eu sgiliau sgwrsio Cymraeg wrth ofalu am ddefnyddwyr gwasanaeth. Bydd rhan annatod y Gymraeg yng nghyflwyniad addysg gofal iechyd y Brifysgol yn sicrhau y bydd gwasanaethau gofal iechyd o safon yn cael eu darparu yn y Gymraeg i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'r tîm, sy'n dal i dyfu, yn cynnwys ymarferwyr nyrsio cofrestredig gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC):

- **Bleddyn Lewis - Uwch Ddarlithydd ac Arweinydd Maes Iechyd Meddwl**
- **Angharad Jones - Darlithydd Addysg Gofal Iechyd**
- **Branwen Rhys - Swyddog y Gofrestrfa Academaidd**
- **Chantal Thomas - Rheolwr y Gofrestrfa Academaidd - Lleoliadau Gwaith**
- **Darren Prince - Darlithydd Iechyd Meddwl**
- **Devibala Kasinathan - Darlithydd Addysg Gofal Iechyd**
- **Gwyn Jones - Darlithydd Addysg Gofal Iechyd**

Mae ein Tîm Gofal Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â Phrosiect Llwybr Addysg Wledig (LLAW) lle mae myfyrwyr meddygol sydd ar eu trydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd yn cael cyfle i gael blwyddyn o'u haddysg mewn practisau meddygon teulu ac ysbytai. Mae'r lleoliad gwaith gwledig hwn yn rhoi profiad amhrisiadwy iddynt o weithio'n agos gyda chlinigwyr a chleifion yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth, am 12 mis. Caiff y myfyrwyr eu dysgu gan arbenigwyr yn y pwnc a'u rheoli gan Dr Sue Fish sydd hefyd yn feddyg teulu sy'n gweithio yn yr ardal. Addysgir y myfyrwyr ar y cyd â'r myfyrwyr nyrsio ac maent yn y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd unwaith yr wythnos.

Fel tîm, edrychwn ymlaen at ddatblygiad rhaglenni proffesiwn gofal iechyd yn y dyfodol, yn ogystal â chyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn yr ardal. Ym mis Mehefin 2023 bydd ein rhaglen nyrsio ran-amser yn cychwyn, a gomisiynwyd hefyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Bydd y Brifysgol yn croesawu gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n gymwys i ymuno ag ail flwyddyn ein cynlluniau Nyrsio yn rhan 2 / Blwyddyn 2, a chwblhau gweddill eu hastudiaethau yn rhan amser, a fydd yn sicrhau hygyrchedd i bawb.




*Yr Is-ganghellor yr Athro Elizabeth Treasure, y Gweinidog Iechyd Eluned Morgan AS, Pennaeth Addysg Gofal Iechyd Amanda Jones, ac Elin Jones AS*

## Gweinidog yn agor y Ganolfan Addysg Gofal Iechyd newydd

Agorodd Gweinidog Iechyd Cymru, Eluned Morgan AS, ganolfan newydd gwerth £1.7 miliwn i hyfforddi staff y GIG ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Medi 2022.

Mae'r Brifysgol wedi creu ystafelloedd ymarfer clinigol o ansawdd uchel yn ei Chanolfan Addysg Gofal Iechyd newydd gyferbyn ag Ysbyty Bronglais yn y dref. Cefnogwyd y datblygiad £1.7 miliwn gan grant o £500,000 gan Lywodraeth Cymru.

Rhan ganolog o'r safle newydd yw Uned Sgiliau Clinigol gydag ardaloedd efelychiad ansawdd uchel sy'n adlewyrchu taith y claf o'r cartref a gwasanaethau cymunedol hyd i asesiad, gofal wedi'i gynllunio a gofal acíwt.

Mae'r offer addysgu newydd yn cynnwys clustffonau realiti rhithwir er mwyn profi heneiddio a modelau dynol o faint llawn sy'n efelychu amrywiaeth eang o gyflyrau iechyd.

Meddai'r Gweinidog Iechyd, Eluned Morgan AS: "Pleser yw cael agor y ganolfan newydd hon ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'n gydweithrediad rhagorol rhwng y byrddau iechyd a'r Brifysgol a bydd yn hwb i recriwtio nyrsys yn y maes hwn."

Ychwanegodd yr Is-ganghellor yr Athro Elizabeth Treasure: "Mae'n anrhydedd fawr cael ymweliad gan y Gweinidog i agor y Ganolfan, sy'n fuddsoddiad sylweddol i ganolbarth Cymru. Dros y blynyddoedd sydd i ddod, trwy weithio gyda phartneriaid, rydym yn awyddus i wneud cyfraniad cynyddol at ddiwallu anghenion ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Rwy'n siŵr y bydd y Ganolfan newydd yn adnodd pwysig yn yr ymdrech honno. Heddiw rydym yn gosod y sylfeini ar gyfer twf addysg gofal iechyd yma yn Aberystwyth yn y dyfodol."

# Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr

Pleser bob amser yw cael ysgrifennu ar gyfer cymuned cyn-fyfyrwyr Aber a rhannu syniadau a diweddariadau ar ran Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr (CCF). Rwyf wedi cael blwyddyn gyntaf gyffrous a gwerthfawr fel Llywydd CCF, a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Swyddogion a Phwyllgor CCF, Canghennau CCF a'n haelodau am yr holl waith caled a'r ymroddiad rydych yn parhau i'w roi i CCF ac i ddod â'n cymuned ynghyd.



Lauren Marks, Llywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr

O ganlyniad i'r flwyddyn brysur, rwy'n falch o ddweud bod fy hiraeth y soniais amdano yn fy erthygl *PROM* ddiwethaf wedi'i dawelu! Rwyf i ac aelodau eraill CCF wedi cael y pleser o gynrychioli cyn-fyfyrwyr a mynychu sawl digwyddiad yn ystod y flwyddyn i ddathlu llwyddiannau a cherrig milltir y Brifysgol a'r myfyrwyr, gan gynnwys Diwrnod y Sylfaenwyr, lansio'r Gronfa Cyfleoedd Ewropeaidd a dathlu pen-blwydd Adran y Gyfraith yn 120.

Uchafbwynt arbennig dros y flwyddyn ddiwethaf fu agoriad swyddogol yr Ysgol Filfeddygol newydd gan Ei Uchelder Brenhinol y Brenin Siarl, a wnaed yn bosib diolch i roddion hael gwerth cyfanswm o £500,000 gan gyn-fyfyrwyr. Mae hyn yn dangos gwerth a chyfraniad cyn-fyfyrwyr o ddifri, gan gynnwys aelodau'r CCF, at ddyfodol y Brifysgol ac yn enwedig at brofiad myfyrwyr y presennol a'r dyfodol. Diolch i chi i gyd!

Un o ddigwyddiadau mwyaf cyffrous y flwyddyn wrth gwrs fu'r seremoni raddio a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf. Achlysur arbennig iawn gan fod graddedigion 2020 a 2021 wedi cael cyfle i ddychwelyd ar gyfer eu seremonïau, a gollwyd oherwydd y pandemig, ochr yn ochr â graddedigion 2022. Hyfryd oedd gweld y campws yn llawn graddedigion a'u cefnogwyr yn dathlu, cael cwrdd â chymaint ohonoch a rhoi croeso cynnes i'n ton ddiweddaraf o aelodau CCF. Rydym yn falch iawn bod cymaint ohonoch chi wedi dewis ymuno â CCF cyn ac yn ystod y cyfnod graddio. Mae'r arian aelodaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn yn mynd tuag at gefnogi'r myfyrwyr presennol.

Rydym bob amser yn croesawu Aelodau Oes newydd o'r CCF ac yn hapus bod llawer o gyn-fyfyrwyr eisiau cymryd y cam bach ychwanegol gyda ni ar ein taith, cadw mewn cysylltiad â'r Brifysgol a'i chyn-fyfyrwyr, a gweithio gyda ni i gefnogi'r Brifysgol, y myfyrwyr presennol, ac edrych tua'r dyfodol. Os hoffech chi fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni neu ewch i'n gwefan lle mae Aelodaeth Oes ar gael.

Er ein bod wedi mwynhau blwyddyn lwyddiannus ac yn edrych ymlaen at flwyddyn gyffrous arall i'r CCF a'r Brifysgol, hoffwn hefyd ystyried y rhai y bu'n rhaid ffarwelio â hwy eleni, gan gynnwys Tun Arshad Ayub, Cyn-lywydd CCF a sylfaenydd Clwb Cyn-fyfyrwyr Aber Malaysia, y teimlwyd ei gyfraniad i gymuned y cyn-fyfyrwyr yn fyd-eang.

Daw blwyddyn academaidd 2022/23 â llawer o resymau i ddathlu, yn enwedig pen-blwydd CCF yn 130 a phen-blwydd y Brifysgol yn 150, gan ddod â chyfleoedd i gysylltu, neu ailgysylltu o bosib, â chyn-fyfyrwyr eraill, sydd i mi yn un o uchafbwyntiau yr hyn a wnawn drwy'r CCF. Rwy'n edrych ymlaen at weld CCF yn ail-lansio Penwythnos yr Aduniad blynyddol ym mis Mehefin 2023 ac yn gweithio gyda'r Brifysgol i greu digwyddiad cofiadwy, sy'n agored i bob cyn-fyfyriwr, er mwyn i chi gael ymuno â ni i ddathlu'r cerrig milltir arbennig hyn. Cadwch lygad ar y wefan a'r cylchlythyrau, bydd mwy o wybodaeth cyn bo hir!

www.ccfaber.org
https://www.aber.ac.uk/cy/development/osa/



# Coleg Llyfrgellwyr Cymru – 60 mlynedd yn ddiweddarach



*1966 – Staff a myfyrwyr Coleg Llyfrgellwyr Cymru yn sefyll o flaen Bronpadarn*

Yn 2024, bydd yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth yn dathlu 60 mlynedd! Trwy gydol y cyfnod, ac mewn sawl ffordd, bu'r adran yn chwaraewr byd-eang allweddol wrth addysgu ym maes llyfrgellyddiaeth a gwybodaeth, ac mae wedi croesawu darpar lyfrgellwyr, rheolwyr gwybodaeth ac arweinwyr archifau o bedwar ban byd.



*Dr Anoush Simon Pennaeth Astudiaethau Gwybodaeth*

Agorodd Coleg Llyfrgellwyr Cymru yn Llanbadarn Fawr, Aberystwyth ym 1964. Ar y pryd fe'i sefydlwyd yn goleg 'monotechnig' (sef coleg yn canolbwyntio ar un maes pwnc) a hon oedd 'ysgol llyfrgellyddiaeth' gyntaf Cymru. Fe'i sefydlwyd yn dilyn cyhoeddi dau adroddiad gan y llywodraeth, ym 1959 a 1962, yn galw am "sefydlu ysgol llyfrgellyddiaeth yng Nghymru", gan bwysleisio bod angen i lyfrgelloedd mewn cymunedau dwyieithog gael staff oedd yn "gyfarwydd â'r Gymraeg ac wedi'u trwytho yn hanes a llenyddiaeth Cymru".

Yn 2019, dyfarnwyd Cymrodoriaeth Er Anrhydedd Prifysgol Aberystwyth i Bennaeth cyntaf y coleg, Frank Hogg, a fu farw'n drist iawn ym mis Hydref 2022. Roedd ef o'r farn y gallai'r Coleg hefyd gyrraedd y "safon ryngwladol uchaf" ac, yn fuan, hon oedd yr ysgol lyfrgellyddiaeth fwyaf yn y Deyrnas Unedig. Erbyn 1968 roedd ganddi dros 400 o fyfyrwyr, ac erbyn dechrau'r 1970au hi oedd ysgol llyfrgellyddiaeth fwyaf blaenllaw Ewrop, yn denu myfyrwyr a staff o bob cwr o'r byd. Un o'r uchafbwyntiau y bydd llawer o gyn-fyfyrwyr yn ei gofio o bosibl yw'r Ysgolion Haf i Raddedigion Rhyngwladol (IGSS) a gafodd eu cynnal tan 2001. Bydd eraill yn cofio Llyfrgell y Coleg/Thomas Parry, y neuaddau preswyl yn Nhan-y-bwlch (fflatiau preifat bellach), neu'r daith hyfryd ar y trên i Gymru.

Yn 1989, daeth y Coleg yn rhan o Brifysgol Cymru, Aberystwyth, yn wreiddiol yn Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth, a bellach yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth. Yn 2014 symudodd o'i adeilad pwrpasol ar gampws Llanbadarn i gampws Penglais, sef prif safle addysgu a bywyd y Brifysgol bellach. Gwnaed llawer o newidiadau dros y blynyddoedd, gan gynnwys datblygu cyrsiau dysgu o bell hyblyg sydd wedi denu myfyrwyr o'r DU a thu hwnt ers dros 30 mlynedd - a bydd y rhan fwyaf o'u plith yn cofio ymweld ag Aberystwyth ar ysgolion astudio preswyl. Daeth yr adran yn un 'dull deuol', gan dderbyn dysgwyr amser llawn a dysgwyr o bell ond mae'r genhadaeth graidd – sef addysgu cenedlaethau o fyfyrwyr mewn llyfrgellyddiaeth, rheoli gwybodaeth ac archifau a rheoli cofnodion - wedi parhau'r un fath. Ym mis Medi roedd yn gyffrous i ni gael croesawu'r garfan gyntaf o israddedigion ar ein cynllun gradd newydd mewn Astudiaethau Treftadaeth Ddiwylliannol: Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd.

Mae trigain mlynedd yn garreg filltir wych i ddathlu llwyddiannau miloedd o fyfyrwyr a thros 100 o staff sydd wedi bod yn rhan o'r daith, ac i'r perwyl hwn rydym yn cynllunio cyfres o ddigwyddiadau a phrosiectau i nodi'r pen-blwydd. Bydd hyn yn cynnwys prosiect i gasglu atgofion, lluniau a deunydd arall yn gysylltiedig â'r Coleg, a gyrfaoedd staff a myfyrwyr. Byddem yn croesawu eich cyfranogiad yn hyn o beth! Megis dechrau mae'r prosiect a bydd diweddariad pellach yn *PROM* y flwyddyn nesaf – ond os hoffech chi gymryd rhan, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni: 60years@aber.ac.uk, ac fe rown eich enw ar y rhestr bostio. Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

NODWEDD

# Dathlu canrif a hanner o Fathemateg ger y Lli



Yr Athro Simon Cox
Pennaeth yr Adran Mathemateg

Mae "Mathemateg ger y Lli" wedi'i ymarfer yn Aberystwyth ers i'r Brifysgol agor am y tro cyntaf. Yn wir, Aberystwyth oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i ddysgu Mathemateg. Mae'r dulliau dysgu yn sicr wedi newid ers i'r Athro Mathemateg cyntaf, Horatio Nelson Grimley, groesawu myfyrwyr yn 1872, ond ein nod o hyd yw darparu addysg o'r safon uchaf mewn amgylchedd cyfeillgar a chefnogol. Rydym ni'n adran agos-atoch-chi o staff sy'n cynnal ymchwil ac sy'n addysgu trwy gyfuniad o ddarlithoedd, grwpiau tiwtorial bach, a sesiynau ymarferol â'r nod o archwilio cyfoeth cynhenid Mathemateg a throsi Mathemateg ac Ystadegau'n gymwysiadau ymarferol. Yng Nghymru, mae gan yr Adran ran arweiniol yn darparu mathemateg mewn Addysg Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg.

George Kynch oedd pennaeth yr Adran Mathemateg Gymhwysol yn Aberystwyth yn y 1950au. Tra'r oedd yma bu'n gweithio ar fecaneg solid a hylifol, hynny yw datblygu modelau mathemategol i esbonio dynameg y ddau gyflwr mater hyn. Roedd Kynch hefyd yn rhan o'r gwaith o sefydlu'r Athrofa Mathemateg a'i Chymwysiadau, gan ddilyn yn ôl troed yr Athro Mathemateg cyntaf yn Aberystwyth, Horatio Nelson Grimley, a oedd yn un o'r rhai a sefydlodd Cymdeithas Fathemateg Llundain. Mae'r ddwy bellach yn Gymdeithasau Dysgedig o fri sy'n ymroi i hyrwyddo Mathemateg.

Mae gwaddol mathemategol Aberystwyth yn cynnwys tri Chymrawd y Gymdeithas Frenhinol. G.A. Schott oedd y pennaeth Mathemateg Gymhwysol cyntaf pan benderfynwyd ei gwahaniaethu oddi wrth Fathemateg Bur ar ddechrau'r 20fed ganrif, a gwnaeth enw iddo'i hun ym maes damcaniaeth fathemategol pelydriad electromagnetig. Ar yr un pryd daeth W.H. Young i Aberystwyth. Ei ddiddordebau ymchwil oedd damcaniaeth integreiddio – heddiw byddem ni'n ei alw'n ddadansoddwr – ac roedd yn arloeswr na arhosodd yn hir yn Aberystwyth. Yn y 1960au daeth Ken Walters i Aberystwyth a dechrau grŵp mewn Rheoleg – astudio llif hylifau cymhleth.



*Gennady Mishuris*

150 o flynyddoedd ar ôl i Grimley ddechrau dysgu Mathemateg yn yr Hen Goleg yn 1872, mae'r adran yn cyfuno cryfderau mewn Mathemateg Bur (algebra, dadansoddi), Mathemateg Gymhwysol (mecaneg solid a hylif) ac ystadegau (a gymhwysir, er enghraifft, i fioleg).


I ddewis un enghraifft, mae Gennady Mishuris yn Athro Modelu Mathemategol yn yr Adran Mathemateg, ac un o'i feysydd arbenigedd yw modelu mathemategol toriadau mewn solidau. Mae cymhwysedd eang i hyn, ond y maes arwyddocaol yw rhagweld lledaeniad craciau llawn hylif mewn toriad hydrolig.

Wrth gyfeirio at "ffracio", lle caiff hylif ei bwmpio ar bwysedd digonol i greu crac mewn craig sy'n cynnwys olew i ryddhau'r olew, mae'r pwnc yn tueddu i hollti barn. Ond cyfiawnheir ymchwil yr Athro Mishuris ar ddwy sail. Yn gyntaf, p'un a ydych chi'n cefnogi'r syniad sylfaenol o echdynnu mwy o olew ai peidio, bydd gwell modelau mathemategol o'r broses yn darparu gwybodaeth fwy cywir am ei buddion neu beryglon, gan ddibynnu ar eich safbwynt. Yn ail, mae toriad hydrolig mewn gwirionedd yn derm ehangach o lawer, ac mae proses toriad a ysgogir gan hylif yn digwydd yn naturiol, er enghraifft draenio dŵr tan-rewlifol ac mewn llosgfynyddoedd. Mae deall y broses yn hanfodol i gynnal diogelwch argaeau, storfeydd gwastraff daearegol, a gosodiadau dal a storio carbon, gan gyfrannu at ymdrechion i liniaru effeithiau cynhesu byd-eang.


Mae'r Athro Mishuris yn defnyddio nifer o ddulliau mewn mathemateg fodern, gan gynnwys modelu,

Natur

Ymwthiadau magmatig



Dŵr yn draenio oddi tan rewlifoedd





Moddion

Chwistrelliad




Cymal





# FFRACIO HYDROLIG

Technoleg


Ffracio



Dal a storio $CO_2$




Ynni geothermol




dadansoddi mathemategol cywir ac efelychu rhifol. Mae'n arbenigwr o fri rhyngwladol ar dechnegau Wiener-Hopf, hafaliadau integrol hynod, asymptoteg, a rhyngweithiadau hylif-solid. Cydnabuwyd ansawdd ei waith gan wobrau niferus, yn cynnwys Cymrodoriaeth Alexander von Humboldt, Athro Belvedere gan Arlywydd Gwlad Pwyl, a Gwobr Teilyngdod Ymchwil Wolfson y Gymdeithas Frenhinol.

Dechreuodd yr Athro Mishuris a'i dîm gymhwyso eu harbenigedd ymchwil i doriadau hydrolig yn 2010, gan sicrhau prosiect "HYDROFRAC" yr UE, â'r nod o wella technegau torri hydrolig, a thrwy hynny gynyddu cynhyrchedd cronfeydd olew a nwy. Roedd hwn yn gydweithrediad rhyngwladol yn cynnwys Prifysgol Technoleg Rzeszow (Gwlad Pwyl), Prifysgol Talaith New Mexico (UDA) a'r partneriaid diwydiannol SINTEF (Norwy) ac EUROTECH (Gwlad Pwyl). Trwy hyn a phrosiectau cysylltiedig, mae'r partneriaid wedi hyfforddi cenhedlaeth o ymchwilwyr ifanc sydd wedi mynd ymlaen i weithio ym meysydd cyllid, cyfrifiadura a'r byd academaidd.

Fel y gellid disgwyl yn yr 21ain ganrif, mae mathemateg Mishuris yn ddefnyddiol mewn meddalwedd cyfrifiadurol y gall eraill ei ddefnyddio i lunio rhagfynegiadau. Defnyddir offer cyfrifiadurol i astudio'r cyplu rhwng lledaeniad toriadau a llif hylif. Mae cwmnïau mawr yn y diwydiant petroliwm wedi defnyddio ei algorithmau i gynyddu cyflymder a chywirdeb eu hefelychwyr toriadau hydrolig, tra bod gweithdai gyda diwydiant wedi creu gwyddonwyr mwy gwybodus sydd â'r hyder i ddylanwadu ar lunwyr polisïau.

Mae gwaith diweddaraf yr Athro Mishuris yn ymwneud â thechnegau ffactoriad effeithiol ar gyfer ffwythiannau matrics. Er bod hyn yn swnio'n astrus, mae ystod cymwysiadau y technegau hyn yn eang iawn, o "feta-ddeunyddiau", a elwir hefyd yn ddyfeisiau mantellu sydd wedi'u cynnig fel gwarchodaeth yn erbyn daeargrynfeydd, i ddadelfennu deunyddiau biolegol a moleciwlau fel DNA.

Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd Mathemateg i gymdeithas a bywiogrwydd adran sy'n olrhain ei gwreiddiau'n ôl i gyfnod sefydlu'r Brifysgol.

# Cyfweliad gyda Natasha Devon

Graddiodd Natasha Devon o Brifysgol Aberystwyth yn 2002 gyda gradd mewn Saesneg. Ers hynny mae wedi dod yn Gymrawd y Brifysgol, yn hyrwyddwr iechyd meddwl, yn ymgyrchydd gweithredol dros bobl ifanc, yn awdur llwyddiannus ac mae ganddi sioe radio wythnosol ar LBC. Siaradais gyda hi am ei chyfnod yn Aberystwyth a'i gyrfa hyd yma.




**Pam ddewisoch chi ddod i Aberystwyth i wneud gradd?**
Graddiodd fy athrawes Saesneg yn yr ysgol o Aberystwyth ac roeddwn i'n cael trafferth dewis prifysgol. Cefais raddau A yn fy arholiadau Safon Uwch i gyd ac roedd cryn bwysau i fynd i Rydychen neu Gaergrawnt neu rywle tebyg. Roeddwn i wedi bod i ddiwrnodau agored yn rhai o'r prifysgolion hynny a doedden nhw ddim yn fy nenu. Cefais sgwrs gyda hi am y peth a dywedodd hi stori wrthyf am astudio at ei harholiadau terfynol yn eistedd ar yr hyn rwy'n gwybod bellach yw Craig Glais, yn gwylio'r haul yn machlud dros y môr. A meddyliais i fod hynny'n rhyfeddol! Felly es i ddiwrnod agored Aberystwyth ac roedd yn un o'r dyddiau prin yn y flwyddyn pan oedd hi'n wirioneddol heulog. Rwy'n cofio meddwl bod hyn fel bod ar wyliau! Gwych! Soniodd neb am y gwynt a'r glaw...

**Sut oeddech chi'n treulio'ch amser yn Aberystwyth pan nad oeddech chi'n gweithio at eich gradd?**
Roedd gen i ffrind oedd yn frwd iawn dros gerdded, felly bydden ni'n cerdded i'r holl lefydd lle na fyddai pobl yn mentro fel arfer. Rwy'n cofio teimlo fel arwres mewn llyfr Brontë, gyda'r dirwedd yn drawiadol. Rwyf i hefyd yn cofio, er bod Aberystwyth yn eithaf anghysbell, a'i fod yn cymryd cryn amser i gyrraedd yno, bod awduron, artistiaid a cherddorion anhygoel yn dod i Ganolfan y Celfyddydau. Rwy'n cofio meddwl wow, mae'r bobl hyn wedi teithio'n bell i'n gweld ni.

**Beth wnaethoch chi ar ôl graddio?**
Mi wnes i hyn a'r llall am gyfnod, ond roeddwn i'n gweithio fel ysgrifennydd i therapydd dibyniaeth pan feddyliais i 'Rwyf i am wneud rhywbeth gydag iechyd meddwl mewn ysgolion'. Dyna pryd y sylweddolais i beth fyddai fy llwybr gyrfa. I ddechrau fe ddychwelais i fy hen ysgol a chyfweld â disgyblion am beth oedd



ar goll o'u haddysg bersonol iechyd a chymdeithasol a beth hoffen nhw gael gwersi arno. Ateb y mwyafrif llethol oedd delwedd y corff, ac roedd hynny'n beth go radical i'w ddweud nôl yn 2008.

Sylweddolais yn fuan fod ystyriaethau eraill oedd angen sylw fel hunan-niweidio a straen arholiadau, felly dechreuais weithio gydag arbenigwyr i lunio cynlluniau gwersi yn y meysydd hyn oedd yn ymwneud ag iechyd meddwl. Rydyn ni'n tueddu i feddwl am faterion iechyd meddwl fel problem i'r unigolyn – fel 'mae dy ymennydd wedi torri' – ond roeddwn i'n gweld patrymau pendant o ran pwy yr oedd pethau'n effeithio arnyn nhw. Felly meddyliais ei bod yn rhaid bod y pethau hyn yn strwythurol, i raddau – rhaid bod rhyw fath o stwff yn seiliedig ar bolisi y tu ôl i hyn. Dyna beth a'm trodd

i’n greadur hynod o wleidyddol, a hefyd beth olygodd fy mod yn dechrau ysgrifennu i bapurau newydd fel y *Guardian* a’r *Independent* am yr hyn roeddwn i’n ei weld ar lawr gwlad a sut roedd hynny’n gysylltiedig â pholisi’r Llywodraeth.

Yn 2015 cefais alwad gan yr Adran Addysg yn dweud ‘rydyn ni’n edrych am ein hyrwyddwr iechyd meddwl cyntaf erioed i ysgolion ac rydyn ni’n meddwl y byddech chi’n addas iawn’. Roeddwn i am fod yn bont rhwng yr hyn oedd yn digwydd mewn ysgolion a’r Llywodraeth i ddylanwadu ar bolisi, ond roedden nhw’n fy ngwahodd i gyfarfodydd bord gron drwy’r amser, lle doedd dim byd yn cael ei wneud – roedd mor rhwystredig. Roedd y cyfryngau’n gofyn i fi beth oeddwn i’n ei feddwl, ac roeddwn i’n dweud wrthyn nhw! Yn y pen draw roedd rhaid iddyn nhw gael gwared arna i.

### Soniwch am eich tri llyfr cyntaf.


Cyhoeddwyd fy llyfr cyntaf, *A Beginners Guide to Being Mental*, yn 2018 ac roedd yn ‘A i Y’ iechyd meddwl. Roedd yn dilyn fformat fy sgyrsiau mewn ysgolion: Ym mhob pennod roedd darn o naill ai fy stori bersonol neu bethau roeddwn i wedi’u clywed gan bobl go iawn i wneud y llyfr yn ddynol. Roedd ychydig o wyddoniaeth – ‘sut mae eich ymennydd yn gweithio, dyma pam mae pethau’n digwydd’ – ac ar y diwedd roedd cynghorion ymarferol ar yr agwedd benodol honno.

Roedd fy llyfr nesaf am arholiadau. Roedd y grwpiau ffocws roeddwn i’n eu cynnal gyda phobl ifanc mewn ysgolion yn cadw dweud ‘Rwy’n gwybod bod fy iechyd meddwl yn bwysig ond mae gen i arholiadau…’, felly fe ysgrifennais i’r llyfr yma o’r enw *Yes You Can Ace Your Exams Without Losing Your Mind*. Mae’n gasgliad o gynghorion sy’n meithrin eich iechyd meddwl ond hefyd yn gwella eich gallu i ddysgu, astudio ac adolygu.

Yna eleni fe gyhoeddais fy nofel gyntaf, o’r enw *Toxic* am reolaeth drwy orfodaeth mewn cyfeillgarwch. Unwaith eto, roedd hwn yn rhywbeth a ddaeth drwy grwpiau ffocws mewn ysgolion. Mae’n llyfr i oedolion ifanc, mae’r prif gymeriad yn 17 ond fel rwy’n atgoffa pobl, er ei fod wedi’i anelu at bobl ifanc, dyw hynny ddim yn golygu mai dim ond pobl ifanc sy’n gallu ei ddarllen. Rwyf i wrthi’n gweithio ar y dilyniant.

### Pa agweddau ar eich gyrfa hyd yma sydd wedi rhoi’r boddhad mwyaf i chi?

Mae’n swnio’n dila braidd, ond pan fydd rhywun yn ysgrifennu ataf i, yn dod i siarad â fi ar ôl dosbarth, ac yn dweud ‘Roedd hwnna’n taro nodyn gyda fi’ neu ‘Mae hwnna’n ddefnyddiol, rwyf i am ei ddefnyddio…’. Y syniad eich bod yn estyn i mewn i fywydau pobl. Y munudau yna sy’n gwneud popeth arall, yr holl drolio a gewch chi fel menyw proffil uchel sydd â barn, yn werth chweil.







Cyfweliad gan
John Gilbey
gilbey@bcs.org.uk
@John_Gilbey

# Proffiliau Cyn-fyfyrwyr

Fel Prifysgol, rydym yn hynod falch o'n graddedigion. Mae llawer ohonynt yn mynd ymlaen i gael llwyddiant mawr yn eu gyrfaoedd, yn byw ym mhob cwr o'r byd, gan fynd â thamaid o Aber gyda nhw, ac yn gweithio ym mhob diwydiant y gallech ei ddychmygu.

Dyma straeon rhai o'n cyn-fyfyrwyr.

## Georgia Mantzana



(MScEc Rheolaeth a Chyllid yn 2010)

Mae Georgia yn ddylunydd proffesiynol sydd wedi ennill gwobrau, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio fel Uwch Ddylunydd UX i gwmni telathrebu blaenllaw, Sunrise yn Zurich, y Swistir. Nod Georgia yw grymuso mwy o fenywod i weithio ym myd dylunio a thechnoleg. Mae ei gwaith dylunio arloesol wedi cael ei gydnabod gan y sefydliadau byd-eang Top100 Women in Tech UK a noddir gan Goldman Sachs, WomenTech Network, a WATC Rising Stars in Digital a noddir gan Barclays.

"Fe wnaeth fy ngradd Meistr gynyddu fy hyder a datblygu fy ngallu i ddysgu'n annibynnol. Er enghraifft, meistroli sgiliau penodol yn ymwneud â dadansoddi, meddwl yn feirniadol, a datrys problemau, a helpodd y cwbl fi i baratoi ar gyfer bywyd o ddysgu'n barhaus mewn byd lle mae gwybodaeth yn tyfu'n gyflym".

## Dr Natalia Szablewska

(BSc Econ Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol gyda'r Gyfraith 2005 a PhD yn y Gyfraith 2011)

Ar hyn o bryd mae Natalia yn Athro Cyfraith a Chymdeithas yn y Brifysgol Agored, ar ôl treulio'r 11 mlynedd diwethaf yn gweithio yn y byd academaidd yn Awstralia, Seland Newydd, a Chambodia, ynghyd â phenodiadau rhyngwladol gan gynnwys gwasanaethu ar y Grŵp Cynghori Arweinyddiaeth Caethwasiaeth Fodern i Lywodraeth Seland Newydd ac fel Cadeirydd Pwyllgor Busnes a Hawliau Dynol Australian Lawyers for Human Rights.

"Mae gen i atgofion melys iawn o fy ngradd gyntaf yn Aberystwyth, a dyna'r rheswm pam y dychwelais i wneud fy ngradd PhD yma ar ôl derbyn Efrydiaeth Ymchwil Ôl-raddedig y brifysgol. Ond yn ogystal â hyn, rwyf wedi cadw mewn cysylltiad â'm cyd-fyfyrwyr a'm darlithwyr dros y blynyddoedd ac wrth weithio mewn sawl swydd mewn gwahanol rannau o'r byd. Heb os, mae'r ffaith i mi gael addysg o'r radd flaenaf yn canolbwyntio ar faterion rhyngwladol wedi siapio fy newisiadau gyrfa ac wedi caniatáu imi lywio fy ngyrfa i'r cyfeiriad sydd nid yn unig yn rhoi pleser aruthrol i mi ond hefyd boddhad yn yr hyn rwy'n ei wneud."





## Salim Lamine

(MSc ADGD 2014)

Ar hyn o bryd mae Salim yn gweithio fel Uwch Ddarlithydd ym maes Synhwyro o Bell Hypersbectrol ac Amaethyddiaeth Fanwl ym Mhrifysgol Bouira (UAMOB) yn Algeria. Dysgodd sgiliau lefel uchel ym maes Geomateg yn ystod ei leoliad gwaith ERASMUS yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yn 2017 cwblhaodd ei radd PhD gyda Phrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Houari Boumediene (USTHB).

O ganlyniad i'w ymchwil ar ganfod metelau trwm gan ddefnyddio Technoleg Delweddu Hypersbectrol, a gynhaliwyd yn ADGD, dyfarnwyd gwobr ECOWORLD 2017 i Salim gan Academi Gwyddorau Naturiol Rwsia. Mae'n dal i gyd-awduro cyhoeddiadau gwyddonol blaenllaw ar y cyd â staff ymchwil yn ADGD.

"Roedd Aber, a'i hamgylchedd amlddiwylliannol gyfoethog, yn fan lle cefais gyfle i ail-danio fy agwedd gadarnhaol, benderfynol, a'm dyfalbarhad".



## Harry Dennis

(BSc Bioleg Forol a Dŵr Croyw 2014)

Sefydlodd Harry y fenter gymdeithasol Waterhaul yn 2018. Nod y fenter yw mynd i'r afael â phroblem offer pysgota sy'n cael ei adael yn y môr, trwy drawsnewid y 'gwastraff' plastig hwn a'i wneud yn adnodd. I ddechrau, parhaodd Harry â'i yrfa ym maes ymchwil ecoleg forol; ond yn 2017 cafodd swydd ymchwil, cyfathrebu a pholisi mewn elusen cadwraeth forol flaenllaw sy'n canolbwyntio ar fater llygredd plastig, cyn sefydlu Waterhaul.

"Roeddwn wastad yn angerddol ynglŷn â chyfuno fy niddordebau entrepreneuraidd â'm hymchwil academaidd ynglŷn â'r amgylchedd morol. Bu Aberystwyth yn gymorth i mi roi hyn ar waith - nid yn unig trwy ddysgu sgiliau ymchwil yn ystod fy ngradd ond hefyd trwy ei rhaglenni entrepreneuriaeth, fel y gystadleuaeth Gwobr CaisDyfeisio y bûm yn rhan ohoni."

## Gwobr Menter Aber 2022

Mae cynnig busnes i gynhyrchu cynnyrch cywarch arloesol a therapiwtig wedi syfrdanu'r beirniaid i ennill cystadleuaeth syniadau busnes Gwobr Menter Aber eleni.

Enillodd y cynllun busnes a'r cyflwyniad gan Jamila La Malfa-Donaldson, myfyriwr uwchraddedig sy'n ymchwilio i gywarch diwydiannol yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, fuddsoddiad busnes o £10,000 a noddwyd gan gyn-fyfyrwyr y Brifysgol.

Bydd ei brand bwyd a chosmetigau, PROHEMPOTIC, yn cynnig amrywiaeth o gynnyrch sy'n deillio o gywarch organig gyda chynhwysion ychwanegol sy'n seiliedig ar blanhigion, â'r nod o gynorthwyo iechyd a lles.

Sicrhaodd syniad busnes Jamila hefyd un arall o wobrau mawr eu bri y gystadleuaeth, sef blwyddyn o ofod swyddfa ar gampws arloesi a menter Aberystwyth, ArloesiAber. Derbyniodd daleb Revolancer gwerth £1,500 hefyd yn rhodd gan enillydd Gwobr Menter Aber y llynedd, a gwobr o £500 ar gyfer busnes gwledig a noddir gan y Rhwydwaith Twf, Gwydnwch Gwledig ac Arloesi (GRRaIN).

Roedd pump o'r deuddeg cais eleni ar y rhestr fer gan y panel beirniadu, a oedd yn astudio'r cynlluniau busnes, yn gwrando ar y cyflwyniadau, ac yn trafod y ceisiadau.

Cafwyd cysyniadau dylunio cynnyrch megis cymorth ffon clyfar i bobl ddall a harnais pwysau ar gyfer pwysau tegell; mentrau ar-lein gan gynnwys llwyfan cerddoriaeth a sgwrsio a llwyfan steilio; meddalwedd i gynorthwyo i greu teithiau rhithiol; ap ysgyfaint iach i helpu cleifion i reoli eu clefyd; siop sy'n gwerthu cynnyrch sy'n amgylcheddol-ymwybodol; a chwmni datblygu hadau ac eginblanhigion.



Dyfarnwyd £1,000 o Gronfa Arloesi Ymchwil Cymru y Brifysgol. o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Dyfarnwyd gwobr ar wahân o £3,000 a noddwyd gan Engineers in Business i Thomas Breeze, myfyriwr uwchraddedig Cyfrifiadureg, a arddangosodd gysyniad roboteg modiwlaidd arloesol, BreezeLabs.

Roedd y panel o feirniaid yn cynnwys nifer o raddedigion Prifysgol Aberystwyth sydd wedi mynd ymlaen i gael gyrfaoedd llwyddiannus mewn busnes. Yn ymuno â nhw hefyd roedd enillydd Gwobr Menter Aber y llynedd, Karl Swanepoel, y mae ei gwmni Revolancer, marchnad llawrydd sy'n cysylltu gweithwyr llawrydd medrus â busnesau uchelgeisiol sy'n ceisio tyfu, wedi mynd o nerth i nerth.

Os hoffech sôn am eich profiadau ers gadael Aberystwyth, cysylltwch â ni yn alumni@aber.ac.uk

# Cefnogi llwyddiant myfyrwyr

Nid oes modd mesur effaith amhrisiadwy eich cefnogaeth ddyngarol ar y Brifysgol a'n myfyrwyr – cefnogaeth sy'n hael o ran amser ac arian.

Wrth i ni ddathlu ein 150 mlwyddiant, rhaid i ni gydnabod a chofio am y dyngarwr hwnnw yn ein gorffennol a fu'n rhan hanfodol o hanes addysg uwch yng Nghymru. Mae'n ffordd rymus o'n hatgoffa o bwysigrwydd haelioni a rhoi yn ôl, heddiw cymaint ag erioed.

Gyda'ch gilydd, mae eich haelioni yn cyd-adeiladu dyfodol mwy disglair wrth inni edrych ymlaen at y 150 mlynedd nesaf.

Mae eich cefnogaeth yn trawsnewid yr Hen Goleg, yn galluogi ymchwil sy'n arwain y byd, ac yn trawsnewid bywydau myfyrwyr trwy grantiau caledi, mentrau iechyd a lles, a chyfleoedd sy'n newid bywydau trwy gyfrwng ysgoloriaethau a bwrsariaethau newydd.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu rhodd fel y rhestrir yn ein Cofrestr Rhoddwyr 2021-22 a diolch o galon hefyd wrth gwrs i'r rhai sydd wedi rhoi yn ddienw www.aber.ac.uk/cy/diolch



## Ysbrydoli meddyliau cyfreithiol

Eleni fe wnaethom ddathlu 120 mlwyddiant Adran y Gyfraith a Throseddeg. Cynhaliwyd dau ginio arbennig, yn yr Old Bailey, Llundain ym mis Mai, ac yn Amgueddfa Cymru, Caerdydd ym mis Mehefin. Rhoddodd eich cefnogaeth gyfle i fyfyrwyr fynychu, rhwydweithio a chlywed gan gyd-fyfyrwyr sy'n farnwyr, yn gyfreithwyr, yn Athrawon ac yn arweinwyr busnes. Cyn y digwyddiad yng Nghaerdydd, aeth y myfyrwyr hefyd ar daith o gwmpas y Senedd, gan gwrdd â chyn-fyfyriwr o Aber, Vaughan Gething AS: Gweinidog yr Economi, a atebodd gwestiynau myfyrwyr yn rhan o sesiwn 'Holi ac Ateb'.

> *Hoffwn ddiolch i bawb, yn enwedig y cyn-fyfyrwyr a'u rhoddion a gynorthwyodd i roi'r grant teithio i mi fod yno. Dyna oedd un o nosweithiau harddaf fy mywyd a hoffwn pe bai'r holl fyfyrwyr wedi gallu bod yn bresennol. Rhoddodd yr holl gefnogaeth, anogaeth a brwdfrydedd a gefais yno ysbryd newydd i mi fedru dal ati i gwblhau fy ngyrfa academaidd.* **Abdullah Abdullatif, myfyriwr PhD.**

## Rhoi hwb i ymchwil

Cafwyd hwb ariannol sylweddol i brosiect ymchwil ar waith y Prifardd Gwenallt ac i ddatblygiad Ystafell y Gyfraith a Llys Ymryson yn rhan o gynllun uchelgeisiol yr Hen Goleg.

Cyflwynodd Francis Glynne Jones, cyfreithiwr wedi ymddeol o Wrecsam, £60,000 i'r Brifysgol er cof am ei ddiweddar frawd Colin Glynne Jones, ei dad Hywel Glynne Jones, ei daid Cyril Oswald Jones a'i hen daid Humphrey Bradley Jones, sef y bardd Garmonydd. Er i Francis Glynne Jones ei hun astudio yng Nghaergrawnt, astudiodd ei dad, ei frawd ac aelodau eraill o'r teulu ym Mhrifysgol Aberystwyth.

"Mae gan fy nheulu lawer o gysylltiadau â Phrifysgol Aberystwyth ac rwyf wrth fy modd fy mod wedi gallu eu cydnabod fel hyn. Rwy'n credu'n gryf mai addysg yw popeth ar gyfer y dyfodol, ac mae dyfodol ein gwlad yn dibynnu ar addysg."



## Caledi myfyrwyr

Rydych wedi cefnogi 532 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn academaidd trwy roi cymorth ariannol yn benodol ar gyfer caledi yn deillio o amgylchiadau neu anawsterau ariannol annisgwyl neu anrhagweladwy o ganlyniad i ddiffyg incwm neu wariant hanfodol. Mae hyn wedi sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cymorth i ddal ati â'u hastudiaethau heb bryderon na baich ariannol.

### Effaith gadael rhodd mewn ewyllys

Mae rhodd yn eich ewyllys yn ffordd arbennig o ddathlu eich bywyd a chofio Prifysgol Aberystwyth.

Mae cymynroddion o bob maint yn helpu i gefnogi a chyfoethogi bywydau myfyrwyr y dyfodol, yn hyrwyddo addysgu a dysgu, ac yn cynorthwyo Prifysgol Aberystwyth i aros ar flaen y gad o ran ymchwil blaengar.

Mae gwneud eich ewyllys yn benderfyniad personol ac rydym yn sylweddoli pwysigrwydd gofalu am eich teulu a'ch anwyliaid. Efallai y teimlwch ei bod yn iawn ystyried rhoi rhodd i'r Brifysgol, ac os felly byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i weithio gyda chi i sicrhau y bydd eich rhodd yn cael ei defnyddio fel y bwriadwch.

Er mwyn trafod hyn neu i gael gwybod rhagor, cysylltwch â'n swyddfa Cyn-fyfyrwyr trwy e-bostio alumni@aber.ac.uk neu ffonio 01970 621568.

### Cefnogi'r Brifysgol

Rydym yn cydnabod ac yn dathlu'r effaith y mae eich rhoddion wedi'i chael, ac ni fyddai llwyddiant Aber yn bosibl heb eich cefnogaeth. Diolch o galon.

Gall eich rhodd, beth bynnag yw ei faint, ynghyd â chyfraniadau eraill gan gyn-fyfyrwyr a chefnogwyr ledled y byd, wneud gwir wahaniaeth ar draws ein tri maes blaenoriaeth:

**Cymorth i Fyfyrwyr (CronfaAber)**

**Apêl yr Hen Goleg**

**Datblygiad Academaidd ac Ymchwil**

Gallwch roi un rhodd unigol neu gyfrannu'n rheolaidd

- Ar-lein yn www.aber.ac.uk/cy/rhoi
- Trwy'r post drwy ffurflen cyfrannu rhodd
- Rhoddion rhyngwladol trwy system SWIFT ein partneriaid neu Sefydliad Ysgolion a Phrifysgolion Prydain (BSUF)

Os hoffech drafod eich rhodd yn fanylach, cysylltwch â swyddfa'r Cyn-fyfyrwyr trwy e-bostio alumni@aber.ac.uk neu ffonio 01970 621568.

## Haelioni 2021-22 mewn rhifau

**£798,535**
wedi'i roi gan gyn-fyfyrwyr a chefnogwyr

**72**
intending to leave a gift in their will

**£745,273**
gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

**562**
o roddwyr sydd wedi rhoi unwaith

**183**
o roddwyr sydd yn rhoi'n rheolaidd

### BLAENORIAETHAU CODI ARIAN

**£847,899**
Apêl yr Hen Goleg

**£206,998**
Cymorth i Fyfyrwyr (CronfaAber)

**£563,572**
Datblygiad Academaidd ac Ymchwil

**107**
o aelodau presennol sy'n rhoi ar lefel Cylch Cyfrannu'r Is-Ganghellor

# Menter Dewis Choice – trawsnewid yr ymateb i gam-drin domestig yn hwyrach mewn bywyd



Sarah Wydall, Darllenydd yn Adran y Gyfraith a Throseddeg

Canfyddiad y cyhoedd o gam-drin domestig yn erbyn menyw ifanc sydd â phlant a gyflawnir gan bartner agos gwrywaidd, sydd yn siapio ymatebion deddfwriaeth, polisi, ac ymarfer o ran *pryd* mae cam-drin domestig yn digwydd yn ystod bywyd a *phwy* sy'n derbyn cymorth fel dioddefwr. Mewn gwirionedd gall unrhyw un ddioddef cam-drin domestig ar unrhyw adeg yn ystod eu bywyd. Hefyd, gall aelodau o'r teulu sy'n oedolion gyflawni cam-drin domestig.

Gall effeithiau cam-drin fod yn amrywiol ac yn ddifäol, gan effeithio ar lesiant corfforol, rhywiol, seicolegol ac economaidd, ac yn yr achosion eithafol, gall arwain at farwolaeth. Mae 18-25% o'r troseddau treisiol a hysbysir yn achosion o gam-drin domestig. Fodd bynnag, fel trosedd gudd, yn aml mae dioddefwyr yn rhy ofnus i roi gwybod amdanynt. Yng Nghymru a Lloegr yn y ddwy flynedd hyd at fis Mawrth 2021, lladd domestig ymhlith pobl 70 oed a hŷn oedd y gyfradd uchaf y pen o'r boblogaeth (ONS 2022).

Er gwaethaf amcangyfrifon byd-eang fod un ym mhob pump o bobl 60 oed neu hŷn yn profi cam-drin domestig, mae diffyg cynrychiolaeth sylweddol i ddioddefwyr-oroeswyr hŷn mewn ymchwil. Mae tri rheswm am hyn.

Yn gyntaf, mae academyddion, cyllidwyr, comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth wedi dylanwadu ar ffocws a chyfeiriad yr ymchwil, ac mae hyn, gyda rhai eithriadau, wedi creu persbectif cis-ryweddol, hetero-rywiaethol, oedraniaethol ynglŷn â chyflawni a dioddef cam-drin domestig, gan ragdybio bod cam-drin domestig yn dod i ben pan fydd pobl yn chwe deg oed (Wydall, 2021)

Yn ail, profiad y rhai sy'n dioddef-goroesi ac sy'n 60 oed a hŷn yw 'tlodi gwasanaeth' felly mae cyrraedd grŵp mor 'anodd eu cyrraedd' yn rhwystr at adeiladu sail o dystiolaeth i lywio darpariaeth gwasanaeth a datblygu polisi.

Yn drydydd, ceir diffyg data am ddioddefwyr sy'n 60 oed a hŷn. Er enghraifft, nid oedd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn casglu data ar ddioddefwyr-oroeswyr 60 oed a hŷn tan 2017. Mae'r diffyg tystiolaeth ymchwil am ddioddefwyr-oroeswyr hŷn yn cyfyngu ar greu gwybodaeth newydd a 'ffyrdd o feddwl' am bolisi ac ymarfer sy'n honni mynd i'r afael â cham-drin domestig (Wydall and Zerk, 2017).

Dewis Choice oedd y fenter gyntaf i edrych yn fyd-eang ar gyfiawnder a hawliau dynol i ddioddefwyr-oroeswyr hŷn. Awgrymodd tystiolaeth a gasglwyd gan y tîm ymchwil yn 2012 (Alan Clarke, John Williams, Sarah Wydall a Rebecca Zerk) fod dioddefwyr-oroeswyr yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o ymatebion cyfiawnder troseddol a sifil traddodiadol o'u cymharu â grwpiau oedran eraill. Yn ogystal, roedd agwedd ymarferwyr yn nawddoglyd, gan weithredu ar ran pobl hŷn o fewn y fframwaith lles, yn hytrach na hwyluso'r cyfle i bobl hŷn wneud dewisiadau gwybodus i ymgysylltu â darpariaeth cyfiawnder.

Dewis Choice, sy'n rhan o Ganolfan ar gyfer Oedran, Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol y Brifysgol dan arweiniad Sarah Wydall, yw'r unig enghraifft o'i fath o hyd yn fyd-eang sy'n cyflwyno gwasanaeth a gyd-grëir i gefnogi dioddefwyr-oroeswyr hŷn o argyfwng i adferiad. Mae'n darparu'r ymchwil hydredol cyntaf i gofnodi profiadau byw  dioddefwyr-oroeswyr hŷn o





safbwynt hawliau dynol wrth iddynt geisio amddiffyniad, cyfiawnder ac adferiad parhaus.

Mae Menter Dewis Choice wedi arloesi gydag integreiddio ymchwil trawsnewidiol a chyswllt cymunedol, gan weithio gyda dioddefwyr-oroeswyr hŷn, aelodau o'r gymuned ac ymarferwyr i gyd-greu pecynnau cymorth pwrpasol i ymarferwyr, ffilmiau byr, podlediadau a hyfforddiant i grwpiau amrywiol. Er enghraifft, mewn ymateb i Covid-19, cynigiodd Dewis Choice hyfforddiant ar-lein, a rannwyd gan yr Uned Atal Dioddefwyr yn eu pecyn adnoddau Covid-19 ac a argymhellwyd fel arfer gorau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r tîm ar hyn o bryd yn gweithio gyda Heddlu Dyfed Powys ar ddefnyddio realiti rhithwir i gael persbectif o geisio cymorth 'trwy lygaid' dioddefwr-oroeswr hŷn gyda'u cydweithwyr Dr Helen Miles ac Andra Jones yn yr Adran Cyfrifiadureg.

Mae Dewis Choice yn enghraifft wych o ethos y Brifysgol o gynwysoldeb, gan ymgysylltu ag ymchwil yn cynnwys aelodau amrywiol o'r cyhoedd, a dod â buddion sylweddol i gymunedau a chymdeithas yn ehangach. Ers 2015, mae'r Fenter wedi cyflogi a hyfforddi 16 o ymchwilwyr, 10 gweithiwr gwasanaeth a 3 staff gweinyddol. Mae codi ymwybyddiaeth, hyfforddiant a gwaith cymunedol wedi cyrraedd dros 20,000 o bobl gan gynnwys: 684 gwirfoddolwr; 193 myfyriwr; a 3,883 o bobl hŷn sydd wedi bod â rhan yn cynllunio cyfres gynyddol o raglenni, a gweithgareddau cymunedol a seiliedig ar ymarfer. Mae'r pynciau wedi cynnwys archwilio mannau diogel, lladd domestig, effeithiau dementia, cyfiawnder sifil a throseddol.

Roedd Dewis Choice yn Astudiaeth Achos Effaith a sgoriodd 4* (arwain y byd) yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 a derbyniodd wobr yr Is-Ganghellor am Effaith Eithriadol.

Disgrifiodd Ymgynghorydd Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru yr effaith mae Dewis Choice wedi'i gael ar bobl hŷn ac eu teuluoedd fel "anfesuradwy." Sylwebodd bod y prosiect wedi cael effaith "dwys ac arloesol ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r cam-drin mae pobl hŷn yn ei brofi, yn ogystal ag ar ddatblygu a gwella'r ymatebion a'r cymorth sydd ar gael."

I gael rhagor o wybodaeth am y tîm a gwaith y Ganolfan, gan gynnwys podlediadau, ffilmiau a chyhoeddiadau eraill, dilynwch y ddolen: https://dewischoice.org.uk/




Mae Sarah Wydall (Prif Ymchwilydd), Rebecca Zerk (Rheolwr y Prosiect Ymchwil), Elize Freeman (arweinydd Polisi ac Ymarfer) yn gweithio yn y Ganolfan ar gyfer Oedran, Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol, Adran y Gyfraith a Throseddeg, Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol

# PENODIADAU, ANRHYDEDDAU A CHYFLAWNIADAU

## Penodiadau

**Yr Athro Iain Barber** – Pennaeth Gwyddorau Bywyd

**Yr Athro Tossapon Boongoen** – Cadeirydd mewn Cyfrifiadureg

**Yr Athro Murray Smith** – Athro mewn Economeg Iechyd Gwledig

## Anrhydeddau

Derbyniodd yr unigolion canlynol Gymrodoriaeth Er Anrhydedd yn rhan o seremonïau graddio mis Gorffennaf 2022:

**Yr Athro y Fonesig Elan Closs Stephens DBE**
Comisiynydd Etholiadol Cymru a Chyfarwyddwr Anweithredol Bwrdd y BBC a'i aelod dros Gymru

**Myrddin ap Dafydd**
Awdur, cyhoeddwr ac Archdderwydd Cymru (cyn-fyfyriwr – Cymraeg, 1977)

**Yr Anrhydeddus Ustus Datuk Vazeer Alam Mydin Meera**
Barnwr y Llys Apêl, Malaysia (cyn-fyfyriwr – y Gyfraith, 1989)

**Harry Venning**
Cartwnydd, darluniwr ac awdur comedi arobryn (cyn-fyfyriwr – Hanes, 1980)

**Dr Zoe Laughlin**
Cyd-sylfaenydd a chyfarwyddwr yr *Institute of Making* (cyn-fyfyriwr – Astudiaethau Perfformio a Ffilm a Theledu, 2003)

**Rhuanedd Richards**
Cyfarwyddwr Cenedlaethol BBC Cymru (cyn-fyfyriwr - Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, 1995)

**Jonathan Whelan**

Ymgynghorydd TG, awdur a Chymrawd Cymdeithas Gyfrifiadurol Prydain (cyn-fyfyriwr – Mathemateg, 1983; TAR, 1984)

**Tom Jones OBE**
Amaethwr a Chadeirydd sylfaen Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm (cyn-fyfyriwr – Hanes a Hanes Cymru, 1970)

**Ei Anrhydedd y Barnwr Nicholas Cooke QC**
cyn Uwch Farnwr Cylchdaith yn y Llys Troseddol Canolog, "the Old Bailey" (cyn-fyfyriwr – y Gyfraith, 1976)

**Gwerfyl Pierce Jones**
cyn Gyfarwyddwr a Phrif Weithredwr Cyngor Llyfrau Cymru

## Llwyddiannau

### Myfyrwyr

Llongyfarchiadau i'r myfyriwr Cymraeg a Gwleidyddiaeth Ryngwladol **Tomos Lynch** ar ennill Cadair Eisteddfod Ryng-golegol 2022, ac i'r myfyriwr Ysgrifennu Creadigol uwchraddedig **Twm Ebbsworth** ar dderbyn y Goron yn Eisteddfod Ryng-golegol 2022 ac Eisteddfod yr Urdd 2022.

Llongyfarchiadau i'r enillwyr o blith y myfyrwyr yng Ngwobrau Staff a Myfyrwyr Undeb Myfyrwyr Aber: **Andra Jones** (Athro Uwchraddedig y Flwyddyn), **Bethan Stewart** (Cynrychiolydd Academaidd y Flwyddyn), **Lauren Rebecca Middleton** (Myfyriwr-fentor y Flwyddyn), **Rae Hughes** (Aelod Staff Myfyrwyr y Flwyddyn) a **Zoe Hayne** (Myfyriwr Wirfoddol y Flwyddyn)

Llongyfarchiadau i'r myfyriwr israddedig Chwaraeon a Gwyddor Ymarfer Corff, **Kieran Booker**, a dderbyniodd Ysgoloriaeth Prifysgol Aberystwyth a Chlwb Pêl-droed Tref Aberystwyth yn 2021.

Llongyfarchiadau i **Sam Aitken**, **Tom Bow**, **Molly Clarke** a **Tayjib Kerstan** o'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu a enillodd daith bedwar diwrnod i Ŵyl Tribeca yn Efrog Newydd ym mis Mehefin 2022, a gyllidwyd gan gyfraniadau i Gronfa Aber.

Enwyd **Caitlin Lory** yn Arwr CPR Sefydliad Prydeinig y Galon yn 2021 ar ôl iddi achub bywyd ei brawd 24 oed Matthew pan ddioddefodd ataliad y galon yn ei gartref.

### Staff

Penodwyd **yr Athro Glyn Hewinson FLSW,** deiliad Cadair Ymchwil Sêr Cymru yng Nghanolfan Ragoriaeth mewn TB Gwartheg Cymru, yn Gadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (CBE) yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines ym mis Mehefin 2022 am wasanaethau i Iechyd a Lles Anifeiliaid.

Etholwyd **yr Athro Iain Donnison** (IBERS), **yr Athro Rhys Jones** (Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear), **yr Athro Colin McInnes** (Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol) a **Dr Eryn White** (Adran Hanes a Hanes Cymru) yn Gymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru ym mis Ebrill 2022.

Llongyfarchiadau i aelodau o staff a enillodd wobrau yng Ngwobrau Staff a Myfyrwyr Undeb Myfyrwyr Aber eleni: **Dr Val Nolan**, Adran Saesneg

# Er Cof

Cofio'r rhai a fu farw rhwng Awst 2021 a Gorffennaf 2022

**Aelod o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr*

### Cymrodyr

**Ayub,** Tun Arshad (Economeg & Ystadegau, 1958), bu farw Mehefin 2022*
**Bidgood,** Ms Ruth, bu farw Mawrth 2022
**Jones,** Mr David John (Dai), MBE, bu farw Mawrth 2022.

### Staff

**Curwen,** Mr Tony, bu farw Gorffenaf 2022
**Davies,** Dr Brian (Biocemeg, 1961), bu farw 2022*
**Elena-Mates,** Miss Alexandra (Gwyddoniaeth Amgylcheddol, 2012) bu farw 2021
**Gornall,** Mrs Sandra, bu farw Tachwedd 2021
**Haynes,** Yr Athro John R, bu farw Chwefror 2022
**King,** Yr Athro Peter J H King, bu farw Medi 2022
**Kingswood,** Mr Peter, bu farw Medi 2021
**Law,** Dr David (Economeg, 1999), bu farw Mawrth 2022
**Martin,** Yr Athro Syr Laurence, bu farw Ebrill 2022
**Morgan,** Ms Hetty Maureen, née Jones, bu farw Awst 2021*
**Pearsons,** Yr Athro Michael, bu farw Mai 2022
**Savidge,** Dr John, bu farw Hydref 2021
**Walters,** Yr Ahtro Kenneth FRS, bu farw Mawrth 2022

### Cyn-fyfyrwyr a chefnogwyr

**Adams,** Mr David Adams (Amaethyddiaeth, 1954), bu farw Rhagfyr 2021*
**Allen,** Yr Athro Philip (Daeareg, 1974), bu farw Rhagfyr 2021
**Anderson**, Mr Angus (Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 1970), bu farw Rhagfyr 2020
**Bishop,** Mr Peter Anthony (Celf, 2002), bu farw Mai 2022
**Barker,** Dr David (Daearyddiaeth & Economeg, 1968), bu farw Chwefror 2022*
**Barnett**, Mr Brian Arthur (Mathemateg, 1967), bu farw Tachwedd 2021
**Dafis,** Mr Lyn Lewis (Astudiaethau Celtaidd, 1986), bu farw Mawrth 2022
**Davies,** Dr Edgar Wynne MBE (Cemeg, 1954), bu farw Rhagfyr 2021*
**Davies,** Dr Mervin Wyndham (Cemeg, 1952), bu farw Ebrill 2022*
**Davies,** Mrs Pamela Maureen, née Morris (Lladin & Addysg), bu farw Mawrth 2022*
**Davies,** Mr William Ellis (Botaneg Amaethyddol, 1944), bu farw Tachwedd 2021*
**Deakins,** Mrs Audrey, née Lewis (Saesneg, 1945), bu farw 2021*
**Dixon,** Yr Athro John Richard (Cemeg, 1950, Doethuriaeth, 1963), bu farw Gorffenaf 2021*
**Dodd,** Miss Margaret (Cymraeg, 1998), bu farw Medi 2021
**Dunsford,** Mr Neil, bu farw 2021
**Edwards,** Mrs Pauline Mary (Ffrangeg & Sbaeneg, 1972), bu farw Ebrill 2021
**Evans,** Ms Annie (Daearyddiaeth), bu farw Hydref 2021
**Foxley,** Mr Graham (Botaneg & Swôleg 1976), bu farw Hydref 2021
**Griffiths,** Dr Lewis John (Ffiseg, 1947), bu farw Tachwedd 2021*
**Griffiths,** Mr Arthur Teifion Griffiths (Saesneg, 1963), bu farw Ionawr 2022*
**Hasberry,** Mr Basil (Cemeg a Cemeg Amaethyddol, 1952), bu farw Chwefror 2022*

ac Ysgrifennu Creadigol (Darlithydd y Flwyddyn), **Dr Niall McKeown**, IBERS (Tiwtor Personol y Flwyddyn), **Dr David Ceri Jones**, Adran Hanes a Hanes Cymru (Arolydd y Flwyddyn) a **Karen Twinney**, Tîm Lletygarwch (Aelod Staff Ategol/ Gwasanaeth y Flwyddyn)

Llongyfarchiadau i'r enillwyr o blith y staff yng Ngwobrau Hybu'r Gymraeg Prifysgol Aberystwyth 2021 - **Kate Wright** (Dysgwr Disglair - staff) ac **Annette Edwards** (Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle).

Enillodd **Dr Lowri Cunnington-Wynn** o Adran y Gyfraith a Throseddeg wobr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ei chyfraniad rhagorol i addysg cyfrwng Cymraeg.

Cyflwynwyd Gwobrau Cwrs Nodedig Prifysgol Aberystwyth ar gyfer arloesi mewn addysgu yn ystod wythnos graddio 2022 ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf (oedwyd oherwydd pandemig COVID-19): enillodd **Dr Lara Kipp** o'r Adran Astudiaethau Theatr Ffilm a Theledu wobr 2019/20 am ei modiwl 'Principles of Scenography'. Enillodd **Dr Hanna Binks** o'r Adran Seicoleg wobr 2020/21 am ei modiwl 'Introduction to Research Methods in Psychology'. Enillodd **Dr Laura Stephenson** o'r Adran Astudiaethau Theatr Ffilm a Theledu wobr 2021/22 am ei modiwl 'Gender and Media Production'.

Enillwyr Gwobrau Effaith Eithriadol Prifysgol Aberystwyth 2021 oedd: **Dr Christina Marley** a'i thîm ehangach yn IBERS a enillodd y wobr am Effaith Eithriadol mewn Ymchwil Gwyddonol am eu hymchwil oedd yn ceisio lleihau lefelau o soia wedi'i fewnforio ar gyfer porthiant da byw a'i effaith amgylcheddol; a **Sarah Wydall** o Adran y Gyfraith a Throseddeg a dderbyniodd y Wobr am Effaith Eithriadol mewn Ymchwil yn y Gwyddorau Cymdeithasol, y Celfyddydau a'r Dyniaethau am eu gwaith fel Cyfarwyddwr Menter Dewis Choice, yn herio tybiaethau bod trais domestig ar sail rhywedd yn digwydd i fenywod dan 45 oed yn unig.

Enillodd y llyfr 'Postfeminism and Health: Critical Psychology and Media Perspectives', a gyd-awdurwyd gan **Dr Martine Robson**, Darlithydd mewn Seicoleg, wobr y monograff academaidd gorau yng ngwobrau llyfrau Cymdeithas Seicoleg Prydain 2021.

## Cyn-fyfyrwyr

Llongyfarchiadau i **Carwyn Morgan Eckley** (Cymraeg 2017) ar ennill Cadair Eisteddfod yr Urdd 2020-21. Lluniwyd y gadair gan y saer Rhodri Owen, sydd hefyd yn gyn-fyfyriwr Aber (Celf Gain, 2004).

Llongyfarchiadau i'r myfyrwyr a enillodd Wobrau Hybu'r Gymraeg Prifysgol Aberystwyth 2021 **Llŷr Tomos** (Troseddeg a Seicoleg Gymhwysol, 2021) a enillodd y Wobr Astudio trwy'r Gymraeg ac **Elen Roach** (Cymraeg Proffesiynol, 2021) a enillodd wobr Pencampwr y Gymraeg (Myfyriwr).

Dyfarnwyd Traethawd Hir Israddedig Cymdeithas Gwyddorau Anifeiliaid Prydain 2021 i **Sara Lind Valdimarsdottir** (Biowyddorau Ceffylau a Milfeddygol, 2021) am ddatblygu dull newydd a allai helpu cael diagnosis o glefydau a chanserau mewn anifeiliaid.

Llongyfarchiadau i **Ellen Wakelam** (TAR Daearyddiaeth, 2007), cyd-sylfaenydd a pherchennog distyllfa arobryn *In the Welsh Wind* yn y Canolbarth, a enillodd wobr Demeter yng Ngwobrau Natwest Everywoman 2021 sy'n cydnabod menywod ysbrydoledig mewn busnes ledled y DU.

Llongyfarchiadau i **Owen Ashton** o Sir Corc a raddiodd o'r Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (Amaethyddiaeth 2013) ar gael ei goroni'n Ffermwr Ifanc y Flwyddyn FBD 2021.

Llongyfarchiadau i **Diana Powell** (Saesneg, 1991) a enillodd Wobr Llenyddiaeth Cinnamon Press am ei nofelig *The Sisters of Cynvael*.

Llongyfarchiadau i **Susan Stokes-Chapman** (Ysgrifennu Creadigol, 2007, MA Ysgrifennu Creadigol 2009), a ddaeth i'r brig ar restr gwerthwyr gorau ffuglen clawr caled y *Sunday Times* gyda'i nofel gyntaf, *Pandora*.

Llongyfarchiadau i **Georgia Mantzana** (MscEc Rheolaeth a Chyllid, 2010) a enillodd wobr TechWomen100 2021 a noddwyd gan Goldman Sachs.

Cyhoeddwyd mai **Aled Eirug** (Hanes a Hanes Cymru, 1977, UCrt Addysg 1979) yw Cadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Llongyfarchiadau i **Ian Johnson**, **Dr Anthony Wyatt** a **Jeff Robinson**, cyn-fyfyrwyr a fu'n rhan o'r tim a enillodd y gystadleuaeth ar gyfer unigolion dros 70 mlwydd oed yng Nghwpan y Byd Meistri Hoci yn Tokyo yn mis Hydref 2022.

**Hickman,** Mr Paul Eric (Ffrangeg & Rwsieg, 1969), bu farw Ionawr 2022
**Hill,** Mrs Catherine, née Hughes (Astudiaethau Clasurol & Llyfrgellyddiaeth), bu farw Mawrth 2022
**Hodges,** Mr Richard (Daearyddiaeth & Daeareg), bu farw Gorffenaf 2021
**Holland,** Mr Gareth John (Economeg & Economeg Amaethyddol, 1975), bu farw Tachwedd 2021*
**Hughes,** Mrs Elizabeth Anne, née Evans, (Cymraeg, 1955), bu farw 2015
**Hughes,** Mr Richard Cyril (Cymraeg & Addysg, 1956?), bu farw Ebrill 2022
**James,** Mr Peter Victor (Cyfraith a Chysylltiadau Rygnwladol, 1977), bu farw Rhagfyr 2021*
**Jones,** Dr Isabel (Y Gyfraith, 1987), bu farw Gorffennaf 2019
**Jones,** Yr Athro Keith (Botaneg Amaethyddol, 1947), bu farw Gorffenaf 2022*
**Jones,** Miss Kirsten (Hanes Celf, 2019), bu farw Rhagfyr 2021*
**Kember,** Ms Pamela (Hanes Celf & Llyfrgellyddiaeth, 1986), bu farw Tachwedd 2021
**Lewis,** Mr John (Economeg & Daearyddiaeth), bu farw Mehefin 2022
**Lowry,** Miss Katharine (Botaneg & Daeareg & Cemeg, 1976), bu farw Mai 2022*
**Llewelyn,** Dr Margaret (Y Gyfraith, 1985), bu farw Hydref 2021
**Lloyd,** Mr J, bu farw 2021
**Mironas,** Mr Adrian (Biocemeg, 2014), bu farw Ionawr 2022
**Morgans,** Mr David Evan Bryan (Cemeg, 1958), bu farw Ionawr 2021
**Murphy,** Ms Angela, née O'Neill (Hanes & Astudiaethau Crefyddol, 1985), bu farw Awst 2021*
**Nicholas,** Syr David CBE (English, 1951), bu farw Mehefin 2022*
**O'Toole,** Mr Brian (Astudiaethau Gwybodaeth & Llyfrgellyddiaeth, 2004), bu farw Tachwedd 2020
**Parsons,** Dr Roger, (1967) bu farw 2021
**Rawlins,** Mr Bert (Cymraeg a Hanes Cymru, 1974), bu farw Hydref 2021
**Rees,** Mr John Alun (Ffiseg, 1946), bu farw Mai 2021*
**Rees,** Mr Wyn Lloyd Rees (Cemeg, 1974), bu farw Awst 2021
**Reid,** Mrs Lynn, née Fitzgibbon (Y Gyfraith, 1973), bu farw Hydref 2021*
**Roberts,** Mr Aled Rhys (Y Gyfraith, 1983), bu farw Chwefror 2022*
**Seligman,** Mr David OBE (Y Gyfriath, 1946), bu farw Awst 2021*
**Shimazaki,** Mr Akira (Gwleidyddiaeth Ryngwladol), bu farw Ionawr 2022*
**Tibbott,** Mr Delwyn (Cymraeg, 1955), bu farw Tachwedd 2021*
**Thomas,** Yr Athro John DSc FRSC, bu farw Ionawr 2022
**Thomas,** Mr Paul Kenneth Davies Thomas (Saesneg, 1999), bu farw Hydref 2021
**Thompson,** Mr Peter (Hanes, 1990), bu farw Ionawr 2021
**Thornley,** Mr David James (Y Gyfraith, 1987), bu farw Awst 2022
**Walter-Davies,** Mr Peter (Sŵoleg & Sŵoleg Amaethyddol, 1954), bu farw Ebrill 2022*
**Williams,** Mr John Gareth (Y Gyfraith, 1975), bu farw Awst 2021
**Wilson,** Yr Athro David (Swôleg, 1978), bu farw Ionawr 2022*
**Whitaker,** Mr David Nelson (Gwyddoniaeth Amglycheddol, 1980), bu farw Ionawr 2022*
**Wyatt,** Mrs Thelma, née Thomas (Botaneg & Swôleg & Daearyddiaeth, 1945), bu farw July 2022*
**Wynne Jones,** Mr Richard, (Gwleidyddiaeth Ryngwladol & Athroniaeth 1951), bu farw Ebrill 2022*
**Vicker,** Mr Neil (Cyfrifadureg, 2015), bu farw Mai 2022

Os hoffech roi gwybod am farwolaeth un o raddedigion Prifysgol Aberystwyth, rhowch wybod i ni trwy anfon e-bost at: alumni@aber.ac.uk

# Creu'r Gyfrol: Ceiniogau'r Werin

*Yn rhan o ddathliadau ei chanmlwyddiant a hanner, mae'r Brifysgol wedi cyhoeddi cyfrol ddarluniadol gain yn edrych yn ôl ar agweddau ar ei hanes trwy gyfrwng 150 o wrthrychau. Roedd* ***Julie Archer****, Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth ac Archifydd y Brifysgol, yn aelod o Fwrdd Golygyddol Ceiniogau'r Werin / The Pennies of the People. Yma, mae'n trafod sut yr aethpwyd ati i roi cyhoeddiad at ei gilydd sy'n dod â rhai o bobl, lleoedd, a straeon y 150 mlynedd ddiwethaf yn fyw.*



Julie Archer, Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth (ac Archifydd y Brifysgol)

Daeth ysbrydoliaeth pellach gan un o'n hacademyddion cynnar, FW Rudler. Roedd yn wyddonydd natur, anthropolegydd ac ef hefyd oedd curadur cyntaf Amgueddfa'r Brifysgol. Yn 1882 dywedodd: 'Gall yr hen ddarn o arian, y llofnod, neu'r telchyn ddysgu mwy o hanes byw gwirioneddol nag y dysga myfyriwr cyffredin o dudalennau lu mewn llyfr.' Gyda *Ceiniogau'r Werin | The Pennies of the People*, gobeithio ein bod wedi llwyddo i gyfuno'r ddau trwy adrodd straeon o'n hanes drwy 150 o wrthrychau wedi'u tynnu'n bennaf o'n casgliadau ein hun.

Ysgogodd y cyfnod o edrych ymlaen at ganmlwyddiant a hanner y Brifysgol drafodaeth am gomisiynu llyfr coffa yn rhan o'r dathliadau. Efallai na fyddai'n hanes 'corfforaethol' cynhwysfawr, yn debyg i gyfrol ragorol E. L. Ellis ar adeg y canmlwyddiant, nac yn gasgliad esoterig ond cyfareddol o atgofion fel yr oedd *College By The Sea* gan Iwan Morgan, ond yn rhywbeth gwahanol.





Llun Ⓗ Rolant Dafis

Sefydlwyd ein casgliadau fel 'Prifysgol i Gymru' a thros amser dosbarthwyd rhai ohonynt gan gynorthwyo i greu sylfaen i sefydliadau eraill, yn cynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru. Yr hyn sydd ar ôl yw'r nifer rhyfeddol o wyth deg o gasgliadau ar hyd a lled yr ystâd, yn amgueddfa ac orielau'r Ysgol Gelf, archifau'r Brifysgol, Llyfrgell Hugh Owen a nifer o adrannau academaidd eraill. Mae'r rhain yn amrywio o weithiau celf a dogfennau sefydlu i lyfrau prin, tacsidermi, osteoleg, herbaria, daeareg a mwy.

Rwyf i'n ddigon lwcus i gael gofalu am un o gasgliadau'r Brifysgol – yr archifau – felly fe fyddaf i wastad yn ffafrio'r eitemau hynny. Yn ogystal ag eitemau amlwg, fel y llyfr cofnodion o 1863 a gadwyd gan ein sylfaenwyr a'r gofrestr gyntaf o fyfyrwyr, roedd y broses o ganfod gwrthrychau posibl ar gyfer y llyfr – boed wedi'u hawgrymu gan fy nhîm neu aelodau eraill o gymuned y Brifysgol – yn gyfle i ailedrych ar rai eitemau sydd wastad wedi 'bod yna'.

Un eitem o'r fath yw blwch o brofion deallusrwydd perfformiad. Fe'i trosglwyddwyd i'r archif ymhell cyn fy nghyfnod i ac er ei fod ychydig yn gam bellach, mae'r blwch pren hyfryd yn cynnwys pethau difyr tu hwnt. Roedd yn wych cael rhannu gwrthrychau â chyd-aelodau'r bwrdd golygyddol a'r ffotograffydd, Rolant Dafis, a greodd ddelweddau mor brydferth i ddarlunio'r straeon hyn. Rhaid rhoi credyd i Rolant hefyd am archwilio'r blwch yn fwy manwl nag wyf i wedi

*Saif y model plastr hanner maint wedi'i beintio o Syr Hugh Owen (1804-1881) yng nghyntedd Llyfrgell Hugh Owen ar gampws Penglais. Mae'n seiliedig ar gerflun efydd gwreiddiol o 1888 gan James Milo Griffith (1843-1897) sy'n sefyll ar y Maes, Caernarfon.*



*Llun ⓗ Rolant Dafis*

*Profion perfformiad deallusrwydd a ddyfeisiwyd gan James Drever a Mary Collins yn 1928 ar gyfer plant â nam ar eu clyw. Fe'u defnyddid gynt gan yr Adran Addysg ac maen nhw bellach yn rhan o'n harchiafau.*


Cyhoeddir *Ceiniogau'r Werin / The Pennies of the People* yn ddwyieithog mewn cyfrol clawr caled 312 tudalen. Y gost yw £25 ac mae ar gael gan lyfrwerthwyr stryd fawr ac ar-lein yn ogystal ag yn siop ar-lein y Brifysgol. Bydd cyfle i weld mwy o'n nwyddau pen-blwydd 150 yma. https://vinestudent.io/outlets/aber-uni-clothing

## CYFLE I ENNILL COPI!

I gael cyfle i ennill copi o'r llyfr, anfonwch eich ateb i'r cwestiwn canlynol i alumni@aber.ac.uk erbyn Mehefin 15fed 2023. Caiff yr enillydd ei ddewis ar hap o blith yr holl atebion cywir a gyflwynir.

**Cwestiwn: Beth oedd enw'r band roc cyntaf i ganu yn Gymraeg, a ffurfiwyd gan bump o fyfyrwyr Aber yn 1967?**

cael amser i'w wneud erioed. Sylwodd nad oedd dyfnder y blwch yn cyd-daro â'i gynnwys, a'i fod yn debygol bod haen gudd, gyda rhagor o brofion. Dyma esgus gwych dros dreulio amser yn archwilio'r gwrthrychau hyn a darganfod pethau nad oedd gen i syniad amdanynt!




Mae wedi bod yn daith o ddarganfod. Efallai fod gen i fwy o ymwybyddiaeth na rhai pobl o'r casgliadau sy'n cael eu dal ledled y Brifysgol a thu hwnt, ond yn sicr dydw i ddim yn gwybod am bob gwrthrych, na'r bobl a'r straeon y tu ôl iddynt. Mae gormod i'w henwi, ond pwy a wyddai fod gennym ni deipiadur mathemategol, generadur ar gyfer pweru pelydr-X, golau trydan cynnar, modelau anatomegol o anifeiliaid fferm, a gwallt gosod bargyfreithiwr oedd yn eiddo i Bennaeth cyntaf y Gyfraith?

Mae'r llyfr hefyd wedi rhoi cyfle i edrych eto ar wrthrychau rwyf i'n cerdded heibio iddynt bob dydd. Roedd gweld y model plastr o Hugh Owen yn rhydd o'i flwch persbecs yng nghyntedd y llyfrgell sy'n dwyn ei enw, yn golygu fy mod yn edrych arno gyda llygaid ffres. Rwy'n credu ei fod yn ddarn hyfryd o waith, ac yn deyrnged addas i'r dyn y gellid dweud oedd yn rym y tu ôl i sefydlu'r Brifysgol.

Rhan anoddaf y broses, fel y gallech ddisgwyl, oedd penderfynu ar y 150 gwrthrych. Mae digonedd o bethau na ddewiswyd am fyrdd o resymau, ond nid y llyfr yw ein hunig ffenest siop. Bydd yr orielau yn yr Hen Goleg ar ei newydd wedd yn rhoi sawl cyfle ychwanegol i adrodd stori hanes y Brifysgol trwy arddangosfeydd parhaol a thros dro. Bu'n hwyl rhyfeddol cael cymryd rhan a gweld y llyfr yn dod i fod, darllen cyfraniadau'r staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr a chyfeillion eraill y Brifysgol. Rwyf i wedi dysgu llawer iawn, ac rwy'n teimlo'n sicr y gwnewch chi hefyd. Felly sicrhewch gopi o'r llyfr os gallwch chi, ac ymunwch yn y dathlu.

# Dathliadau Pen-blwydd

Yn rhan o'n rhaglen i ddathlu 150 ers sefydlu'r brifysgol rydym wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau i cyn-fyfyrwyr a chyfeillion – yma ar y campws, ledled Prydain ac yn rhyngwladol, gan roi cyfle i ni fyfyrio yn ogystal â dathlu.

Dyma rai o'r digwyddiadau allweddol hyd yma a gallwch weld y rhaglen sydd gennym ar y gweill yn www.aber.ac.uk/cy/about-us/150-anniversary/150-events/






**Llundain 18 Hydref 2022**

Cafwyd dathliad arbennig yng nghwmni cyn-fyfyrwyr yng Nghanolfan Cymry Llundain, Ffordd Gray's Inn, lleoliad addas gan mai yma, yng nghalon y ddinas, y daeth y weledigaeth o Brifysgol i Gymru yn realiti. Trafododd y siaradwr gwadd Huw Edwards y cysylltiad hirhoedlog rhwng Llundain a Chymru a dylanwad Cymry Llundain yn arbennig ar Addysg Uwch yng Nghymru a thu hwnt.



**Caerdydd 19 Hydref 2022**

Daeth cyn-fyfyrwyr, cyfeillion, cefnogwyr, staff a myfyrwyr ynghyd i ddathlu yn Y Senedd, Bae Caerdydd yng nghwmni Prif Weinidog Cymru, y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS a'r cyn-fyfyriwr a'r Llywydd, y Gwir Anrh. Elin Jones MS.

Roedd yn gyfle i edrych yn ôl a myfyrio ar ein hanes, ond hefyd i edrych ymlaen tua'r dyfodol, gan aros yn driw i'n hegwyddorion sylfaenol o ddarparu addysg gynhwysol ac ymchwil arloesol sy'n ymateb i anghenion ein cyfnod.

## Dathliad y Sylfaenwyr

**Aberystwyth 14 Hydref 2022**

I gofio'r diwrnod pan groesawyd 25 o fyfyrwyr i'r Hen Goleg gan y Prifathro Thomas Charles Edwards ym mis Hydref 1872, daeth staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr ac aelodau o'r gymuned leol ynghyd ar gyfer yr orymdaith flynyddol i gicio'r bar ar y Promenâd dan arweiniad yr Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure. Ar ôl hyn cynhaliwyd brecwast i ddathlu yn Y Neuadd Fawr a lansio'r gyfrol arbennig ar gyfer y dathliad *Ceiniogau'r Werin / The Pennies of the People*.



## Ymweliad De-ddwyrain Asia 2022

Ymwelodd y Canghellor, yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd, ynghyd â'r Is-Ganghellor, yr Athro Elizabeth Treasure a dirprwyaeth y Brifysgol â Gwlad Thai, Malaysia a Singapore lle cynhaliwyd cynulliadau o niferoedd da o gyn-fyfyrwyr.

Mae'r Brifysgol yn ddiolchgar i'n cyn-fyfyrwyr a'n ffrindiau am eu cefnogaeth amhrisiadwy wrth i ni barhau i gynyddu maint ein rhwydwaith byd-eang. Diolch yn arbennig i Glwb Cyn-fyfyrwyr Malaysia a oedd hefyd yn dathlu eu pen-blwydd yn 30 oed yn ddiweddar ac a lansiodd eu cyfrol ar gyfer y dathliad, '30 years of the Aber Spirit in Malaysia' yn swyddogol yng nghwmni Ei Uchelder Brenhinol Tuanku Muhriz.

# Gweledigaeth y 150



Hanes sefydlu Coleg Prifysgol cyntaf Cymru yw un o'r straeon mawr ymhlith llwyddiannau arloesol y Gymru fodern. Fe'i sylfaenwyd ar egwyddorion nid yn unig rhagoriaeth academaidd ond hefyd cynhwysiant, ac agor drysau a chroesawu pawb, o ba gefndir bynnag, ymrwymiad sydd yr un mor wir heddiw.



Dr Rhodri Llwyd Morgan - Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol

Ein gweledigaeth gychwynnol oedd y byddai'r 150 pen-blwydd yn rhoi cyfle i gynyddu a chyfoethogi proffil y Brifysgol ymhlith cyn-fyfyrwyr, cefnogwyr, rhanddeiliaid, a chynulleidfaoedd newydd ledled Cymru, y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang. Roeddem yn dymuno tynnu sylw at hanes balch y Brifysgol a'i phwyslais parhaus ar ragoriaeth mewn addysgu ac ymchwil, a'i thwf dros y blynyddoedd i fod heddiw yn gymuned lewyrchus o fwy na 8,000 o staff a myfyrwyr, sy'n cynnig un o'r profiadau gorau i fyfyrwyr yn y Deyrnas Unedig.



Roeddem hefyd yn awyddus i drefnu cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau dathlu a fyddai'n adlewyrchu cymaint â phosibl stori unigryw'r Brifysgol, ei hetifeddiaeth, a'i chyfeiriad at y dyfodol. Y mae hefyd yn gyfle i ddathlu gyda'n myfyrwyr, ein staff, a'r gymuned leol sydd, bob un, wedi chwarae'u rhan yn ffurfio Aber.

Llwyddodd yr erthyglau yn y rhifyn hwn o *PROM* i gyfleu ein bwriadau yn dda iawn. Dathlwn yr etifeddiaeth ddofn sy'n deillio o hanes hir a chyfoethog y sefydliad yn y gyfrol hynod ddiddorol *Ceiniogau'r Werin / Pennies of the People*, y modd y daeth y gyfrol honno i fod, a'r unigolion y tu ôl i'r gwrthrychau sy'n dod yn fyw rhwng y cloriau.

Mae stori ryfeddol Mathemateg, un o'r disgyblaethau sefydlol o ddyddiau cyntaf Coleg y Brifysgol yn bwrw golwg ar agwedd ddiddorol o ymchwil yr Adran mewn maes sy'n uchel ei broffil ac efallai'n ddadleuol, sef cynhyrchu ynni. Maes gwahanol iawn sydd gan y Prosiect Dewis Choice, wrth geisio gwneud gwahaniaeth trwy gynyddu ymwybyddiaeth a chefnogaeth i bobl mewn sefyllfaoedd bregus lle maent yn agored i niwed. Yn yr Ŵyl Ymchwil ym mis Tachwedd rhoddwyd sylw i amrywiaeth o fuddiannau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth ar draws disgyblaethau ac o fewn i ddisgyblaethau, ac mae'n tystio i'n swyddogaeth a ninnau'n Brifysgol a arweinir gan ymchwil. Mae ein huchelgais i chwilio am lwybrau newydd, ac ymateb i anghenion yn lleol a thu hwnt, i'w gweld yn glir wrth i ni sefydlu ein darpariaeth gyffrous newydd mewn Nyrsio.

Elfen allweddol o'n rhaglen i ddathlu 150 fu estyn allan at bobl a'u cymell i gymryd rhan, gan roi cyfle i ni fyfyrio ar y 150 mlynedd a aeth heibio ac edrych ymlaen at y 150 nesaf a thu hwnt. Yn ystod ei hanes bu adegau di-rifedi a newidiodd fywydau, adegau sydd wedi gwneud Prifysgol Aberystwyth yr hyn yr ydyw heddiw. Ein perthynas â'n cymuned Prifysgol, ein cymuned leol a'n cymuned cyn-fyfyrwyr ledled y byd yw'r hyn yr ydym wedi ceisio'i gadarnhau ar bob cyfle. O'r lluniau drôn 150, y Rhaglen Agored gyffrous a digwyddiadau yn Aberystwyth, Caerdydd, Llundain a De-ddwyrain Asia, mae miloedd o bobl wedi cymryd rhan mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth barhaus a gobeithiwn y teimlwch ichi gael eich ysbrydoli i gymryd rhan. Edrychwn ymlaen at weld wynebau newydd a wynebau cyfarwydd yn y digwyddiadau a'r gweithgareddau sydd ar y gweill wrth i flwyddyn ein Pen-blwydd ddirwyn i ben yn yr haf.

# Ceiniogau'r Werin

**Cyhoeddwyd *Ceiniogau'r Werin* fel rhan o'n dathliadau pen-blwydd yn 150 oed. Dyma rhai o'r 150 o wrthrychau hynod ddiddorol sy'n ymddangos yn y llyfr. Mae ffotograffau hyfryd wedi'u tynnu gan y ffotograffydd o Aberystwyth, Rolant Dafis.**





*Mae'r gyfrol hon, wedi'i rhwymo mewn lledr, yn nodi mewn llawysgrifen fanylion y myfyrwyr cyntaf i gyrraedd Aberystwyth ym mis Hydref 1872. Hon yw'r gyntaf mewn cyfres o ddeg cofrestr debyg a gadwyd rhwng 1872 a 1909, ac sydd bellach yng ngofal ein harchifau.*



*Yn fuan ar ôl i belydrau-X gael eu darganfod gan yr Athro Wilhelm Röntgen yn yr Almaen yn 1895, adeiladodd ffisegwyr yn Aberystwyth eu tiwb pelydr-X cyntaf yn yr Hen Goleg. Pwerwyd y tiwbiau gan eneraduron gyriant llaw fel y peiriant Wimshurst hwn, sy'n parhau'n un o berlau casgliad cyfarpar yr Adran Ffiseg.*




*Yn 1882, anrhegodd George Ernest John Powell o Nanteos ddarluniau, gwrthrychau celf, hynafolion a hynodion o'i gasgliad i amgueddfa gyntaf y Brifysgol. Roedd ei gymynrodd yn cynnwys y gasged enamel arian a chreigrisial (Awstria, tua 1880), yr honnir ei bod ar un adeg wedi cynnwys darn o arch Robert Schumann.*




*Bathodyn carchar B421 a wisgwyd gan y bardd a'r cynfyfyriwr Gwenallt (David James Jones) adeg ei garcharu'n wrthwynebydd cydwybodol yn Dartmoor, a chyn hynny yn Wormwood Scrubs, yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cyflwynwyd y bathodyn, ynghyd ag eitemau personol a llawysgrifau, yn rhodd gan deulu Gwenallt i Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yn 2022.*




*Cafodd Y Blew ei ffurfio gan bump o fyfyrwyr Aber yn 1967 ac mae'n cael ei gofio fel y band roc cyntaf i ganu yn Gymraeg. Dyluniwyd y poster yma i hyrwyddo'i unig sengl 'Maes B' gan gitarydd bas y band, Dafydd Evans. Cafodd copi o'r poster ei gadw gan Martin R Williams yn ei lyfr lloffion yn cofnodi ei gyfnod fel myfyriwr y gyfraith.*




*Y murlun alwminiwm bwrw yng nghyntedd Canolfan y Celfyddydau sydd wedi ysbrydoli clawr blaen y gyfrol. Cafodd y murlun ei gynllunio gan David Tinker (1924-2000), arlunydd, cerflunydd, dylunydd llwyfan a Chyfarwyddwr yr Adran Celf Weledol (yr Ysgol Gelf erbyn hyn) rhwng 1973 ac 1986.*

**Enillwch gopi o'r llyfr!**

Gweler tudalen 25

@AberUniArchives

archives@aber.ac.uk

Cyn-fyfyrwyr Aber

Lluniau © Rolant Dafis

Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDWR CODI ARIAN

# Ffurflen Rhoddi

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872 150 2022

## FY MANYLION

Enw ........................................................................


Cyfeiriad ........................................................................

........................................................................

........................................................................

E-bost ........................................................................

Ffôn ........................................................................




## HOFFWN WNEUD CYFRANIAD A CHEFNOGI

- ☐ Cronfa Aber: Cymorth i Fyfyrwyr
- ☐ Apêl yr Hen Goleg
- ☐ Y Gronfa Ymchwil
- ☐ Lle bynnag y bo'r angen pennaf

☐ £25 ☐ £50 ☐ £250 ☐ £500

Swm dewisol £ ________

Rwyf yn amgáu:

siec yn daladwy i:

- ☐ 'Cronfa Ddatblygu Prifysgol Aberystwyth'
- ☐ taleb CAF
- ☐ Hoffwn gyfrannu'n ddienw

Pe hoffech gefnogi'r Brifysgol trwy ddull arall, cysylltwch a ni trwy ffonio 01970 621568 i drafod yn fanylach

Diolch!

## FFYRDD O ROI

**Rhoi ar-lein:**
alumni.aber.ac.uk/cy/rhoddi

**Rhoi dros y ffôn:** 01970 622083

**Anfonwch eich ffurflen rhodd atom i'r cyfeiriad hwn:**
Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, Prifysgol Aberystwyth
Blwch Post 2, Aberystwyth. SY23 2AX

## YSTYRIWCH ADAEL RHODD YN EICH EWYLLYS

Byddai gadael rhodd yn eich Ewyllys yn gyfle i fuddsoddi yn y dyfodol a chwarae rhan hanfodol i gefnogi myfyrwyr a gwaith ymchwil.

- ☐ Hoffwn ragor o wybodaeth ynglŷn â gadael rhodd yn fy Ewyllys
- ☐ Rwyf eisoes wedi addo rhodd i Brifysgol Aberystwyth yn fy Ewyllys

## RHODD CYMORTH: GALLWN ADENNILL 25C O DRETH AM BOB £1 A ROWCH – HEB GOSTIO DIM YN YCHWANEGOL I CHI O GWBL

Hoffwn i chi adennill treth ar bob rhodd a wnaed gennyf i Brifysgol Aberystwyth yn y bedair blynedd ddiwethaf, a phob rhodd a wnaf o ddyddiad y datganiad hwn ymlaen, tan i mi eich hysbysu yn wahanol. Rwyf yn drethdalwr yn y Deyrnas Gyfunol a byddaf yn talu digon o Dreth Incwm a/neu Dreth Enillion Cyfalaf gogyfer â'm holl roddion elusennol ymhob blwyddyn dreth. Deallaf y byddaf yn gyfrifol am dalu'r gwahaniaeth os na fydd fy nhrethi'n ddigon i dalu gofynion Rhodd Cymorth.

Llofnod ________ Dyddiad ________

## DIOGELU DATA A PHREIFATRWYDD

Cymerwn eich preifatrwydd yn gwbl o ddifrif. Bydd Prifysgol Aberystwyth yn defnyddio eich data personol i brosesu eich rhodd ac efallai yr anfonwn wybodaeth berthnasol atoch ynglŷn â chyn-fyfyrwyr Aber. Darllenwch ein Datganiad Diogelu Data a Phreifatrwydd: **www.aber.ac.uk/cy/development/dataprotection** neu e-bostiwch **alumni@aber.ac.uk** i ddiweddaru eich dewisiadau.

**Rhoi ar-lein:**
www.aber.ac.uk/cy/development/support/give/

Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestredig: 1145141